www.ecorwyddfa.co.uk

# ECO'r Wyddfa

£1
RHIF 533
Ebrill
2025



# Donna'n disgleirio






Roedd hi'n ddiwedd tymor go wahanol i Glwb Ieuenctid Llanrug eleni, wrth i Donna Taylor roi'r gorau i arwain y clwb ar ôl 30 mlynedd o wasanaeth.

I ddathlu ei chyfraniad enfawr roedd yna barti yn y Sefydliad Coffa, a'r bobl ifanc yn diddanu'r gynulleidfa drwy berfformio a dweud jôcs.

Mynegodd y Cynghorydd Beca Brown ei diolch ar ran y gymuned, gan nodi bod Donna wedi rhoi sylfaen ardderchog i bobl ifanc yr ardal, ac y byddent yn cario hynny efo nhw am byth.

Roedd y ferch leol Caryl Bryn a chamerâu 'Heno' yno'n ffilmio ar gyfer S4C, a gwledd o fwyd wedi ei baratoi gan Cegin Fach Emma.

Does dim gwaith pwysicach na gwarchod buddiannau ein pobl ifanc ni yn eu blynyddoedd ffurfiannol, ac mae Donna wedi gwneud hynny gyda gofal, egni a gwên ar ei wyneb bob amser. Mae'n dyled ni'n fawr i Donna, a dymunwn yn dda iddi i'r dyfodol.






Elin Enfys

## Chwilio am Elin Enfys

Ble mae Elin Enfys? Dewch o hyd iddi'n cuddio mewn 8 lle yn y papur.

## Yn y rhifyn hwn:


- Digwyddiadau lleol – 30 mlynedd o wasanaeth i ieuenctid – tud.20
- Taith i Wlad yr Iâ – tud. 10 - 11
- Gwireddu breuddwyd – tud.12
- Apêl Siop Gymunedol – tud 13
- Cefn Gwlad a'r Sioe Frenhinol – tud.15




10



12

**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith**
Tony Elliott
Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55 3LU.
07798 552238.
tonyelliott17@yahoo.com

**Golygydd Chwaraeon**
Os hoffai rywun ymgymryd â'r swydd byddem yn falch iawn o glywed ganddyn nhw.

**Ffotograffydd**
Gwyndaf Hughes
Hafan, Ffordd Glanmoelyn, Llanrug.
01286 672221.
glasgoed@hotmail.com

**Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu**
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838.
hefsj@aol.com

**Trefnydd Ariannol**
Goronwy Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Gwerthiant Post**
Olwen Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Bwndelu**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Dylunio:** Ffrwd Cyfuniedig
elgangriffiths@btinternet.com

**GOHEBWYR PENTREFI**

**Bethel**:
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Brynrefail:**
Lowri Prys Roberts
Godre'r Coed, Brynrefail.
01286 870580.
lowri-prys@supanet.com

**Caeathro:**
Lowri Ceiriog
4 Erw Wen, Caeathro.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

**Ceunant**
Trystan a Sioned Larsen
Bodafon, Ceunant. 01286 650799
sionedlarsen@googlemail.com

**Deiniolen:**
Nia Gruffudd
3 Hafod, Clwt y Bont. 01286 870394.
glyn.gruffudd@btinternet.com

**Dinorwig:**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Llanberis:**
Eifion Roberts
Swn y Gwynt, Llanberis.
01286 870740.
eifionroberts132@btinternet.com

**Llanrug:**
Ffion Orwig
Tre Ceiri, 9 Pen Cae, Llanrug
Ffôn: 07813 299727
Ebost: ffionorwig@hotmail.com

**Nant Peris:**
Kate Pritchard – 01286 870189.
econantperis@hotmail.com

**Penisarwaun:**
Caryl Rees
Cae Corniog Bach, Penisarwaun.
cajones674@gmail.com
(neu cysylltwch ag Ann Ifans)

**Waunfawr:**
Iola Gruffydd
iolallew@hotmail.co.uk

# Panel Golygyddol

Aelodau: Beca Brown, Nesta Elliott, John Pritchard, Bethan Richardson, Catrin Roberts, Mared Roberts.

Anfonwch eich straeon, newyddion, erthyglau a lluniau ar e-bost i ecorwyddfa@gmail.com os gwelwch yn dda, neu newyddion pentref yn uniongyrchol at y Gohebwyr Pentrefi isod.

Rydym yn croesawu erthyglau hyd at 600 gair o hyd ac mae angen anfon unrhyw luniau atom fel ffeiliau ar wahân. Os hoffech drafod eich cynnwys, mae croeso i chi gysylltu â Nesta Elliott ar 07825 586658.

# Rhoddion

**£100** Er cof am Menna Jones, Llanberis ac Aberhonddu

**£10** Anna Sidebotham, Whaley Bridge



# Llythyrau




Annwyl ddarllenwyr

**Apêl am ymddiriedolwyr newydd i roi cymorth i Gymdeithas y Deillion**

Mae Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru yn awyddus i recriwtio ymddiriedolwyr newydd i'n cynorthwyo i ddarparu gwasanaethau ar gyfer pobl gyda nam golwg.

Rydym yn chwilio am unigolion sy'n barod i rannu eu harbenigedd a'u hamser i ymuno â'r Bwrdd Ymddiriedolwyr.

Gofynnir am ymrwymiad o hyd at chwe awr y mis.

Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn ymuno â chriw brwdfrydig yn cynnwys y prif weithredwr, staff a gwirfoddolwyr i gynllunio a darparu gwasanaethau i bobl a nam golwg

Ymysg y gwasanaethau a gynigir gan y Gymdeithas mae:

- Recordio llyfrau llafar a phapurau newydd
- Cynnal nifer o grwpiau a gweithgareddau
- Canolfan adnoddau
- Gwasanaeth swyddogion adfer
- Addysg technoleg gwybodaeth

Mae'r Gymdeithas yn awyddus i dderbyn ceisiadau oddi wrth unigolion o bob tras a chefndir sydd ag ystod eang o sgiliau a phrofiadau.

Sefydlwyd y Gymdeithas yn 1882 gan Esgob Bangor. Mae ein canolfan adnoddau yn 325, Stryd Fawr, Bangor.

Mae gwybodaeth ar ein gwefan www.nwsb.org.uk neu ewch at ein cyfrifon Facebook, Instagram neu TikTok.

Os hoffech ragor o wybodaeth neu sgwrs gyffredinol ffoniwch y prif weithredwr Steven Thomas ar 01248 353604 neu ebostio steven@nwsb.org.uk Diolch yn fawr.

Yn gywir,
**Steven Thomas**



Annwyl Ddarllenwyr

Fe fydd Cangen Merched y Wawr Bethel yn dathlu ei phenblwydd yn 50 eleni. Felly mae yna wahoddiad i ddarllenwyr yr Eco sydd yn gyn-aelodau o'r gangen i ddod ynghyd efo'r aelodau presennol i ddathlu yn Neuadd Goffa Bethel, nos Fercher, 14eg Mai am 6.30pm. Bydd bwffe wedi ei baratoi a chyfle i hel atgofion, i bori drwy'r arddangosfa a dotio ar hen luniau.

Pris y noson fydd £10 - os am ymuno efo ni cysylltwch â Gwenan Roberts ar gwenanmair@hotmail.com, neu unrhyw un o swyddogion y gangen.

Cofion cynnes
**Gwenan Roberts**
(Ysgrifennydd y Gangen)

# Dyddiadau i'w cofio...

| Rhifyn | Dyddiad cau derbyn cynnwys (ail ddydd Gwener yn y mis) | Dyddiad cyhoeddi (pedwerydd dydd Gwener yn y mis) |
|---|---|---|
| Mai | 11 Ebrill | 25 Ebrill |
| Mehefin | 9 Mai | 23 Mai |
| Gorffennaf | 13 Mehefin | 27 Mehefin |



# Yn ystod y mis a aeth heibio...

- **Hirhoedledd.** Arolwg diweddar yn dangos y gall 1 o bob 5 geneth gaiff ei geni yn 2030 fyw i fod yn 100 oed.
- **Baner.** Yn dilyn dymuniad Trump i Ganada ddod yn un o daleithiau'r UDA, mae gwerthiant baneri cenedlaethol Canada wedi dyblu mewn llai nac wythnos.
- **Gwres**. De Sudan yn cau pob ysgol am bythefnos oherwydd gwres eithafol, a degau o blant yn llewygu yn ddyddiol. Mae'r tymheredd dros yr wythnosau diwethaf wedi bod yn gyson dros 40 gradd Celsius.
- **Cusan.** Luis Rubiales yn ei gael yn euog o gusannu'r bel-droedwraig Jeni Hermoso yn erbyn ei hewyllys yn dilyn buddugoliaeth tim merched Sbaen, a chael dirwy o bron i naw mil o bunnau. Mae'n apelio yn erbyn y ddedfryd. Mae hithau hefyd yn apelio yn erbyn y ddedfryd am fod yr erlynydd ar ei rhan wedi galw am dymor o garchar fel cosb. Dydi'r ymadrodd *"let's kiss and make up"* ddim cweit yn berthnasol rhywsut.
- **Siocled.** Y gyfrinach i fyw'n hen? Siocled yw'r ateb yn ôl Edith Hill sydd newydd ddathlu ei phenblwydd yn 106 oed mewn cartref preswyl yn Skegness. Mae'n bwyta bar cyfan o siocled bob dydd.
- **Papur Bro.** Mae un o drigolion Shonathrala, pentref anghysbell ym Mangladesh wedi cychwyn 'cyhoeddi' papur bro sy'n ymddangos bob deufis. Ond oherwydd diffyg adnoddau, mae Hasan Pervez, y golygydd yn ysgrifennu pob rhifyn! Mae'n dibynnu ar ffermwyr, pysgotwyr gwniadwragedd a gwragedd tŷ am ei storïau. Enw'r papur yw Andharmanik, sef enw'r afon sy'n llifo drwy'r dyffryn anghysbell. Ystyr yr enw yw 'Perl yn y Tywyllwch'.
- **Pris Stamp.** Mae prisiau stampiau yn codi unwaith eto ar 7fed o Ebrill yn ôl datganiad gan y Post Brenhinol. Dyma'r chweched cynnydd mewn prisiau yn ystod y tair blynedd diwethaf. Bydd stamp dosbarth cyntaf yn £1.70 a'r ail ddosbarth yn 87c.
- **Bananas brown.** Mae gwyddonwyr wedi addasu genynnau bananas i'w hatal rhag troi'n frown am o leiaf ddeuddeg awr ar ôl tynnu'r croen. Mae 33% o'r holl fananas sy'n cael eu cynhaeafu led-led y byd yn troi'n frown cyn eu gwerthu, ac yn golygu gwastraff ariannol sylweddol.
- **Ieir bach yr haf.** Gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y *"Monarch Butterfly"* eleni. Maent yn byw i'r dwyrain o Fynyddoedd y Rockies yn yr UDA a Canada, ond yn mudo i Fecsico yn ystod y gaeaf. Maent yn cael eu cyfrif yno – nid fesul un, ond fesul sawl acer o dir a orchuddir ganddynt! Amcangyfrifwyd fod dros 5 acer o dir wedi ei orchuddio â'r ieir bach yr haf eleni o'i gymharu â dim ond 2 acer y llynedd.
- **Alfred.** Yr enw a roddwyd i Seiclon Trofannol a sgubodd i mewn i arfordir dwyreiniol Awstralia. Rhybuddiwyd poblogaeth arfordirol Queensland i fod yn barod i symud o'u cartrefi. Roedd dros 80,000 o gartrefi eisoes wedi colli eu cyflenwad trydan

Annwyl Ddarllenwyr
Dros y misoedd nesaf, fe fydd Plaid Cymru a'r pleidiau eraill yn dewis pwy fydd eu hymgeiswyr yn etholiad Senedd Cymru flwyddyn nesaf. Bydd ward Bethel a'r Felinheli yn rhan o ranbarth etholiadaol newydd 'Gwynedd Maldwyn' a fydd yn ethol 6 aelod i'n cynrychioli ym Mae Caerdydd.

Er mwyn sicrhau eich llais chi wrth ddewis ein cynrychiolwyr, mae'n bwysig fod cyn-aelodau a chefnogwyr Plaid Cymru yn ail-ymaelodi cyn y bydd enwebiadau'n cau ym mis Ebrill.

www.plaid.cymru/ymuno
Ewch ati ar frys!

Yn gywir,
**Osian** (Ysgrifennydd)
Cangen Plaid Cymru
Bethel
a'r Felinheli

## Be sydd ymlaen? What's going on?

| | |
|---|---|
| | **Mis Mawrth** |
| 21/3/2025 | Bingo Boncyrs - Clwb Rygbi Pwllheli |
| 24/3/2025 | Dechrau Canu, Dechrau Canmol - Criccieth |
| | **Mis Ebrill** |
| 3/4/2025 | Whist Drive - Pydew |
| 11/4/2025 | Noson Caws a Gwin Cheese and Wine Evening - Pant Du |
| 26/4/2025 | Diwrnod Gwaith Maes CFFI Cymru |
| 27/4/2025 | Te Prynhawn Afternoon Tea - Llanllyfni |
| | **Mis Mai** |
| 5/5/2025 | Sioe Nefyn Show |
| 10/5/2025 | Gwyl Fwyd Caernarfon Food Fest |
| 17-18/5/2025 | Gwyl Tyddyn a Chefn Gwlad Smallholding and countryside festival |
| 24/5/2025 | Rali CFfI Eryri Eryri YFC Rally |
| 24/5/2025 | Sioe Bryn y Maen Show |

Am fwy o fanylion For more information
@Caernarfon - RWAS • CAFC - rwascaernarfon@gmail.com


Cysylltwch â'n
Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu

**Hefin Jones**, Pantmwyn, Llanrug
01286 673838. hefsj@aol.com


CREU • CYMUNEDAU • GWYRDD
GWYRDDNI
COMMUNITY • CLIMATE • ACTION

## Digwyddiadur GwyrddNi

**Paned i'r Blaned Dyffryn Peris.**
29ain Mawrth, 10.00-11.30am. Caffi Coeden Unig, Llanberis.
Trafod materion amgylcheddol drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae croeso i ddysgwyr.
Does dim tâl am y sesiwn (na'r baned/cacen!), felly dewch draw am sgwrs ddiddorol!

**Gwybodaeth am wirfoddoli hefo Cymdeithas Eryri.**
Dewch i ddysgu mwy am wirfoddoli efo Cymdeithas Eryri a GwyrddNi
Caffi Caban, Brynrefail.
1af Ebrill, 6.30-8.00pm.

**Be' 'di'r peth hinsawdd 'ma?**
Cyflwyniad i wyddoniaeth newid hinsawdd a'r datrysiadau posib.
Ar-lein,
2il Ebrill, 7.00-8.00pm.
Yn y Gymraeg

**Hel Sbwriel ar Yr Wyddfa.**
Gan Gymdeithas Eryri. Rhaid cofrestru ar eu gwefan.
10fed Ebrill, 1.00pm.
Coed Victoria, Llanberis.

**Caffi Trwsio a Gweithdy Trwsio Gweladwy.**
Cyfle i drwsio eich eitemau - dewch a dillad, offer electroneg, beics)
Caffi'r Bedol, Bethel.
13eg Ebrill, 1.00-3.00pm.




**Noson Ffilm: River (2021)**
16/04/2025, 6.30-8.30pm
Y Ganolfan, Llanberis
Noson ffilm hefo trafodaeth ar ei hôl.
Odyssey sinematig a cherddorol sy'n archwilio'r berthynas rhwng bodau dynol ac afonydd. https://www.gwyrddni.cymru/events/noson-ffilm-river-2021/

# NANT PERIS

**Eglwys St Peris**
Bydd gwasanaeth bob bore Sul a bore Mawrth yn ystod mis Mawrth am 9:30am
Oedfaon mis Mawrth, Ebrill a'r Pasg
*Mawrth*
30ain, Sul y Mamau, 9.30am - Boreol Weddi

*Ebrill*
6ed, 9.30am - Boreol Weddi
13eg, Sul y Blodau, 9.30am - Cymun Bendigaid
20fed, Dydd Sul y Pasg, 9.30am - Cymun y Pasg
27ain, 9.30am - Boreol Weddi




**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Catrin a Dan, Treflys, Teras Glyn Afon ar enedigaeth Ana Elen. Dwi'n siwr byddi di Loti Elen yn chwaer fawr arbennig. Llongyfarchiadau hefyd i Mandy a Keith ar ddod yn daid a nain unwaith eto.

**Brysia Wella**
Dymuniadau gorau i Owain Williams, Stad Tŷ Hen sydd wedi cael damwain car, gobeithio byddi'n mendio yn o fuan, Owain. Cofion cynnes at yr holl bentrefwyr sydd ddim yn dda ar hyn o bryd.


**Llwyddiant yn yr Urdd**
Mae'r pentrefwyr yn ymfalchïo bod nifer fawr o blant y pentref wedi cystadlu yn Eisteddfod Cylch yr Urdd eleni. Da iawn chi, pob un ohonoch. Mae nifer wedi mynd ymlaen i gynrychioli'r Ysgol yn yr Eisteddfod Sir - pob lwc i chi!

**Cydymdeimlo**
Bu farw tad Eirian Robson, Tai Isa yn ystod mis Chwefror, bythefnos cyn ei benblwydd yn 99 oed. Er mai yn Llundain oedd yn byw, brodor o Frynrefail oedd David Oliver Williams, un o deulu Llys Arfon gynt. Yn gyn- ddisgybl Ysgolion Dolbadarn ac Ysgol Sir Brynrefail, cafodd yrfa hynod o ddisglair ym myd iechyd cyhoeddus. Yn dilyn yr ail ryfel byd, roedd galw am bobl i hyfforddi fel nyrsys yn Ysbyty Meddwl Dinbych, ac yno yr aeth lle'r oedd yn rhan o weithlu'r NHS newydd. Cyfarfu ei wraig yno, ( Kathleen Eleanor o Dinorwig). Ond yna dilyn trywydd gwleidyddol a gweithio i Undeb Llafur COHSE oedd yn cynrychioli'r gweithlu iechyd newydd, gan symud gyda'i deulu i Sheffield ac yna Llundain. Erbyn 1983 roedd wedi ei ddyrchafu i'r swydd uchaf yn yr Undeb honno, sef yr Ysgrifennydd Cenedlaethol. Gwnaeth gyfraniad i undebaeth lafur rhyngwladol a chwaraeodd ran flaenllaw yn datblygu polisi iechyd rhyngwladol. Roedd yn ymgynghorydd technegol i Fwrdd Sefydliad Iechyd y Byd ac yn aelod o NEC y Blaid Lafur gan enwi dim ond rhai.

Bydd amryw o'r darllenwyr yn cofio ei gyfraniadau lu i radio a theledu Cymraeg a Saesneg ar hyd y blynyddoedd.

Cyfarfu â mawrion ym myd gwleidyddiaeth ond ni anghofiodd ei wreiddiau yma yn Arfon. Magodd saith plentyn - Eirian, Haf, Gwanwyn, Helen, Dewi, Siân ac Eifion, ac mae pedwar ohonynt bellach yn byw yn yr ardal oedd mor bwysig i'w rhieni.


Hefyd rydym yn cydymdeimlo gyda Bernard Parry, 1 Bryn Golau a'r teulu ar achlysur marwolaeth chwaer Bernard.







**Panad a Sgwrs ar Daith**
Mae teithiau cerdded misol y criw Panad a Sgwrs yn mynd o nerth i nerth, gyda'r criw wedi mentro cyn belled â'r Bermo y mis yma. Roedd y daith yn cychwyn mewn ceir i Borthmadog, wedyn trên lawr i Morfa Mawddach a cherdded Llwybr Mawddach nôl i Bermo a thrên yn ôl i Borthmadog. Diolch i Ann Jones am drefnu ac i Bethan Williams am y lluniau.






# Teyrnged i Emrys Lloyd Hughes
## (Emrys Gwastadfaes)



Ar Hydref y 6ed 2024, bu farw Emrys Lloyd Hughes, Treflan Isaf, Waunfawr yn 88oed. Ganed Emrys ar y 3ydd o Chwefror 1936, yn fab i William ac Annie Lloyd Hughes, a brawd bach i Yvonne. Roedd yn dad i Anna, tad-yng-nghyfraith Gareth a thaid balch a hwyliog Sara, Dafydd a Huw.

Fel Emrys Gwastadfaes y'i hadwaenid gan bawb, a hynny ar ôl y fferm lle'i magwyd. Er hynny, treuliodd y rhan helaeth o'i fywyd yn Nhreflan Isaf, fferm cwta filltir lawr y ffordd o'i hen gartref. Un o'i hoff bleserau oedd trin ac ymarfer ceffylau, ac yn enwedig merlod. Rhywbeth cyfarwydd fyddai gweld Land-Rover Treflan Isaf yn dod ar hyd y Weun yn tynnu bocs ceffylau ar y ffordd i ryw sioe neu'i gilydd. Bu Emrys yn llwyddiannus mewn nifer o Sioeau Sir yn 'dangos merlan,' ond yn sicr y gamp fwyaf a gyflawnodd oedd ennill y wobr gyntaf yn nosbarth 'Section B,' o'r merlod Cymreig yn y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd. Roedd cipio'r wobr gyntaf yn un o'r sioeau amaethyddol mwyaf y byd, yn goron haeddiannol i'r ffermwr o'r Weun, wedi'r holl oriau o drin a meithrin merlod.Yn ogystal â'r wobr gyntaf, bu hefyd yn ail fwy nac unwaith yn y sioe fawr, a hynny o fewn trwch blewyn i drechu rhai o'r merlod gorau'r wlad. Yn ogystal â chystadlu, bu hefyd yn beirniadu mewn nifer o sioeau ar hyd a lled Cymru, ac roedd teithio i wledydd tramor fel Awstralia a'r Almaen yn beirniadu merlod yn dyst o'i brofiad a'i wybodaeth yn y maes.

Roedd Emrys yn aelod brwd o glwb Ffermwyr Ifanc Nant-y-Betws, a gynhaliwyd ar nosweithiau Gwener yn ystod y 1950-60 au yn yr hen Ysgol Salem, Betws Garmon. Bryd hynny sefydlwyd tîm pêl-droed yn y clwb i chwarae yn erbyn rhai o dimau'r clybiau Ffermwyr Ifanc erill. Un stori fach fyddai'n hoff o'i hadrodd oedd yr un am y gêm fawr chwaraewyd yn erbyn Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Nantlle, a gynhaliwyd ar gae fferm Caeau Gwynion, gyferbyn â llyn Cwellyn. "Finna'n chwara fel sentar half yn marcio coblyn o sentar fforward mawr heglog yn gwisgo 'sgidia hoelion mawr, a hwnnw'n cicio fel mul nes bod fy mhen-gliniai'n gleisia piws ar ei ôl o!"

Bryd hynny, roedd Emrys yn berchen fan Ford Transit ddu, DCC 135. Er mwyn hwyluso mynd a dod ohonni ar gyfer cario offer fferm â bêls gwair, roedd wedi gwneud i ffwrdd â'r ddau ddrws cefn. Cofiaf yn dda'r noson y gêm honno yng Nghaeau Gwynion, fel roedd criw ohonom ni, hogia bach y Weun wedi crafangio i gefn y fan a gwasgu at ei'n gilydd fel sardîns ar y ffordd i faes y gad ar lan Llyn Cwellyn. Nant-y-Betws oedd y tîm buddugol y noson honno, a hynny o ddwy gôl i un, a ninnau'n dathlu'n llawen yng nghefn y fan ar y ffordd adre.

Cofiaf Emrys yn prynu trol gan ddyn o Rhosgadfan, a Dafydd Beech fy ffrind a minnau'n mynd i'w helpu i'w chyrchu adre. Yr unig broblem oedd sut i fachu'r drol yng nghefn y fan? Nid oedd dolen o'r fath i'w rhwymo! Yr unig beth amdani oedd i Dafydd a minnau eistedd o bopty â'n coesau dros yr ymyl yn gafael yn dynn yn y llorpiau. Trwy ryfedd wyrth, llwyddwyd i gael y drol adre i Treflan Isaf heb unrhyw ddifrod, er bod breichiau Dafydd a minnau bron a dod o'r gwraidd!

Hen Fordson Major lliw gwyrdd oedd tractor Gwastadfaes a Threflan Isaf. Hen horwth mawr trwm yn bygwth rhoi cic hegar i'r sawl fyddai'n ddigon dewr i droi'r handlen i'w gychwyn. Roedd ceisio meistroli'r ffordd o ddreifio hwn yn dipyn o gamp. Yn un peth, roedd y llyw yn eithriadol o stiff, a'r gêrs yn 'crinjan' wrth ymdrechu mynd i'w lle. Er mwyn hwyluso'r ffordd o'i ddreifio, roedd Emrys wedi gwared â'r sedd haearn yn y canol, ac o ganlyniad, sefyll oedd rhaid i'r sawl fyddai'n ei yrru. "Rhen 'Fejor' yn bowndian mynd ar hyd y cae!"chwedl yntau.

Pan gynhaliwyd Carnifal pentref Waunfawr ym mis Mehefin 1953, ymhlith rhestr yr enillwyr a gyhoeddwyd yn y Caernarvon & Denbigh Herald yr wythnos ganlynol roedd;

Best Decorated Vehicle.

Emrys Lloyd Hughes and party: Gwastadfaes.

Ie, y tractor Fordson Major gwyrdd ac Emrys wrth y llyw yn llusgo'r trelar yn cludo'r cymeriadau buddugol ar hyd y pentref.

Diwrnod prysur yn Nhreflan Isaf fyddai diwrnod godro. Emrys ar ei stôl deirtroed â'i ben ar ochr y fuwch yn godro'r llaeth i'r bwced rhwng ei benliniau. Yntau wedyn yn hidlo'r llefrith cynnes drwy hidlan â phadiau o wlân cotwm ar y gwaelod ac i mewn i fwced arall. Dyna pryd byddai Gel yr ast ddefaid yn aros yn eiddgar wrth ddrws y beudy yn barod i draflyncu'r padiau cotwm llaethlyd yn farus!

Un o ddoniau arbennig Emrys oedd cneifio. Ef oedd un o'r cneifiwyr defaid cyntaf yn yr ardal i feddiannu peiriant trydan, a byddai galw mawr am ei wasanaeth gan lawer o ffermydd a thyddynod i ymwneud â'r gorchwyl. Byddai ei gyd gneifiwyr yn ymwneud â'r gwaith trwy ddefnyddio'r hen ddull o gneifio â gwellau, ond ynghanol yr holl hwyl a chellwair, Emrys Gwastadfaes â'i beiriant modern oedd wedi cwblhau y rhan fwyaf o'r gwaith ar ddiwedd y dydd.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, dioddefodd Emrys salwch a chystudd blin, a gyda'i iechyd yn dirywio, methiant iddo mwyach oedd mynychu rhai o'r sioeau arferai ymweld â nhw yn y gorffennol.

Cyfaill siriol, cwmniŵr a ffermwr egniol, un â'i sgyrsiau difyr yn werth gwrando arno, dyna oedd Emrys. Anodd dychmygu na chlywir ei lais hwyliog mwyach yn gofyn wrth agor ffenest y Land-Rover, "Wel, be sgi'n ti i ddeud wrtha'i, rwbath i'w glywad o rwla?" Mae'r Weun ynghyd â'r byd amaethyddol yn sicr o fod yn dlotach o golli cymeriad gwerinol fel Emrys Gwastadfaes

Diolch amdano.

***Mois***


BBC CYMRU WALES
gwobrau gwneud gwahaniaeth 2025
GWOBRAU I DDATHLU'R PETHAU ARBENNIG Y MAE POBL YN GWNEUD ER BUDD EU CYMUNEDAU
ENWEBWCH NAWR
Pwy yw eich arwr cymunedol chi?
Ceisiadau yn cau ar
31 Mawrth 2025
DYMA'R WYTH CATEGORI
Gwobr Gwirfoddoli
Gwobr Arwr Ifanc
Gwobr Cymydog Arbennig
Gwobr Actif
Gwobr Anifail
Gwobr Gwyrdd
Gwobr Codi Arian
Gwobr Grŵp Cymunedol
#BBCGwneudGwahaniaeth
Bydd y rhai sy'n cyrraedd y rhestr fer yn cael gwybod ym mis Mai 2025, ac yn derbyn gwahoddiad i'r seremoni wobrwyo ar Fedi'r 20ed 2025. Mae holl reolau'r gwobrau a'r rhybudd preifatrwydd i'w gweld ar bbc.co.uk/gwneudgwahaniaeth

Siân Gwenllian AS
Aelod o'r Senedd dros Arfon


01286 672076
8 Stryd y Castell, Caernarfon
sian.gwenllian@senedd.cymru
Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd o gronfeydd cyhoeddus

LIZ SAVILLE ROBERTS AS
Aelod Seneddol Dwyfor Meirionnydd

8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
liz.savilleroberts.mp@parliament.uk
01286 672 076
Liz Saville Roberts AS/MP

# Ysgol Llanrug

**Meithrin**
Mae'r misoedd yn mynd yn gyflym a phlant y Dosbarth Meithrin yn tyfu bob wythnos. Dyma rai o'i gweithgareddau yn ystod y mis aeth heibio.

**Eisteddfod**
Bu'r criw yma draw yn Ysgol Brynrefail ar ddechrau mis Mawrth yn cystadlu yn yr Eisteddfod Cylch. Llongyfarchiadau iddynt am eu llwyddiant a bydd y parti Unsain yn symud ymlaen i'r Sir.

**Dydd Gŵyl Dewi**
Bu'r dathlu yn frwdfrydig yma unwaith eto gyda'r plant yn ymfalchïo eu bod yn byw yn y pentref gyda 86% yn siarad Cymraeg a 92% ar hyd Ffordd Yr Orsaf.

**Diwrnod y Llyfr**
Roedd diwrnod y llyfr yn llawn bwrlwm yma yn ysgol Gynradd Llanrug gyda phawb wedi mynd i drafferth i wisgo fel eu hoff lyfr. Cafodd Blwyddyn 2 gyfle i fynd i'r llyfrgell fel rhan o'r dathlu.

**Gala Nofio**
Llongyfarchiadau i'r criw yma am nofio yn wych yng Ngala Nofio Arfon a dod yn ail.

**Crempog**
Dydd Mawrth cyntaf yn ôl roedd y plant wrthi yn brysur yn helpu Mrs Thomas i wneud crempogau.

**Antur**
Bu blynyddoedd 3 a 4 draw yn Llanberis yn ddiweddar yn cael diwrnod o antur. Buon nhw yn mwynhau canŵio, bwyta malws mefus, yfed siocled poeth a llawer iawn o ddringo.

**Gweithdy Castio**
Cafodd disgyblion Blwyddyn 5 a 6 fwynhau gweithdy castio yn ddiweddar. Diolch i gwmni teledu Triongl am roi'r cyfle i blantos Ysgol Gynradd Llanrug gael blas o'r byd ffilm a theledu!





















# Ysgol Bethel

**Twrnamaint rygbi**
Bu tîm rygbi'r ysgol yn brwydro'n galed mewn twrnamaint yr Urdd yn ddiweddar gan golli yn y rownd gyn derfynol. Roedd pawb wedi cael diwrnod gwych o chwaraeon.



**Taith addysgol bl 3-6 i Gastell Penrhyn**
Mae'r disgyblion hynaf yr ysgol wedi bod yn astudio ac yn dysgu am hanes caethweision a'r planhigfeydd siwgr a'r ffordd yr oedd Arglwydd Penrhyn yn gwneud gymaint o arian allan o'r busnesau. Braf oedd cael astudio a dysgu tu allan i furiau'r ysgol.



**Twrnamaint rygbi tag 3/4**
Bu dau dîm o'r ysgol yn cystadlu'n frwd yn nhwrnamaint tag yr Urdd gydag un o'r timau yn ennill y gystadleuaeth. O ganlyniad i hyn, mae'r tîm wedi cael gwahoddiad i gystadlu yn rowndiau terfynol Cymru yn Aberystwyth. Da iawn bawb.



**Diwrnod y Llyfr**
Fel yr arfer, dathlwyd diwrnod y llyfr yn yr ysgol gyda'r disgyblion i gyd yn gwisgo fyny fel eu hoff gymeriad o lyfr.



**Gala nofio**
Bu tîm nofio'r ysgol yn cystadlu yng ngala nofio Arfon. Nofiodd pob un fel pysgod. Daeth y tîm yn bedwerydd - da iawn nhw!




Gwaith Coffaol
LLANRUG

Y Sgwâr
Llanrug
Caernarfon
Gwynedd
LL55 4AA

☎ 01286 672898

AM WASANAETH PERSONOL A GOFALUS
DYLAN GRIFFITH
*Trefnwyr Angladdau Annibynnol a Lleol*
TROS Y WAEN PENISARWAEN
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu yr Holl Ardal
Busnes Teuluol
*Ffôn : 01286 871833 (SYMUDOL: 07778127394)*

# DEINIOLEN

**Llongyfarchiadau**
Mae Rhys Llywelyn James wedi graddio fel Meistr mewn Dadansoddiad Perfformiad Chwaraeon ym Mhrifysgol Gaer. Bydd Rhys yn cario ymlaen gyda'i waith fel dadansoddwr perfformiad i Beicio Prydain lle mae'n gweithio gyda'r tîm sprint trac ym Manceinion.

Gan ddymuno pob llwyddiant iddo yn y dyfodol.

**Profedigaeth**
Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd Bangor yng nghwmni ei theulu tyner, o 2 Deiniol Road, Deiniolen yn 61 mlwydd oed bu farw Marie Ann Williams.


Gwraig annwyl Arwel, mam gariadus Caryl, Joe a Lee, mam yng nghyfraith a nain garedig. Colled drist i'w theulu a'i ffrindiau oll.

**Eglwys Crist Llandinorwig**
**Gwasanaethau mis Ebrill**
6ed, 3.00pm - Hwyrol Weddi
13eg, 3.00pm - Cymun Bendigaid
18fed, 2.00pm - Dydd Gwener y Groglith, Gwasanaeth Wrth y Groes
20fed, 3.00pm - Cymun y Pasg
27ain, 3.00pm - Hwyrol Weddi.

**Cefnywaun ac Ebeneser**
Dyma drefn yr oedfaon (**yn Nhŷ Elidir, ar wahân i Ebrill 6**) am y mis nesaf.
30ain Mawrth : Dr Huw Tegid Roberts am 2.00 pm
6ed Ebrill: Y Parchg John Pritchard am 2.00 pm
Oedfa Fedydd fydd hon yn Eglwys Crist Llandinorwig.
13eg Ebrill: Y Parchg R O Jones am 2.00 pm.
20fed Ebrill (Sul y Pasg): Dim oedfa.
27ain Ebrill: Y Parchg John Pritchard am 2.00 pm.
4ydd Mai: Dim oedfa.

**Gair gan y Cynghorydd**
Bu tim tacluso Cyngor Gwynedd yn brysur yn clirio chwyn ac yn y blaen o gwmpas Stad Maes Gwylfa. Diolch iddynt am eu gwaith.







## GWEITHGAREDDAU AGE CYMRU GWYNEDD A MÔN, Y CARTREF, BONTNEWYDD

Mae'r rhai ohonoch sydd yn mynychu gweithgareddau neu sesiynau yn Age Cymru Gwynedd a Môn yn y 'Y Cartref', Bontnewydd yn gyfarwydd gyda'r enw Megan Owen. I'r rhai sydd ddim yn ei hadnabod, Megan yw ein Swyddog Gweithgareddau a Marchnata.

Yn ddiweddar mae Megan wedi cychwyn ar brosiect newydd sef 'Prosiect Ffiws'. Yn ei rôl fel swyddog y prosiect fe fydd yn cynnal gweithgareddau/sesiynau ar sublimeiddio. Golygai hyn y bydd cyfle i grwpiau neu unigolion ddod mewn i brintio Crysau-T neu fygiau gyda llun neu eiriau personol o'u dewis hwy. Pe byddai rhywun a diddordeb mewn mynychu un o'r sesiynau hyn yna gofynnwn yn garedig i chwi ffonio o flaen llaw i archebu lle.

Cofiwch hefyd bod y gweithgareddau wythnosol yn parhau:
Dydd Llun: Chwarae Cardiau am 1.30 y prynhawn
Dydd Mawrth: Sesiynau Technoleg Gwybodaeth - Yn agored i unrhyw un sydd eisiau dod yn gyfarwydd gyda'i gyfrifiadur neu ffôn. Cychwyn am 10.00 y bore.
Sesiwn Celf – Dau Sesiwn: Bore am 10.00 a 2.00 y prynhawn.
Dydd Mercher: Creu Cardiau – cychwyn am 10.00 y bore.
Dydd Iau: Clwb gwau am 10.00 y bore a Sesiwn Yoga Cadair am 1.30 y prynhawn

Mae 5 trip wedi ei drefnu gan Megan ar gyfer gweddill y flwyddyn sef:
Ymweld â Thŷ Erddig, Wrexham – 27ain Mehefin
Ymweld a Chastell Biwmares – 23ain Gorffennaf
Trip i'r Eisteddfod Genedlaethol – 4ydd Awst
Sioe Flodau'r Amwythig – 8fed o Awst
Ymweld â Phlas Glyn Y Weddw – 19eg Medi
Trip siopa Nadolig – 28ain Tachwedd

Unwaith eto, gofynnwn yn garedig i chwi ffonio i archebu lle i unrhyw un o'r tripiau. Mae'r tripiau hyn yn gallu bod yn boblogaidd iawn. Felly cofiwch, cyntaf i'r felin!

Am fwy o wybodaeth ynghylch unrhyw un o'r gweithgareddau/tripiau uchod cysylltwch â Megan Owen ar megan@acgm.co.uk neu drwy ffôn ar 01286 685913. Hoffwn atgoffa pawb y byddwn yn gofyn am flaendal pan fo rhywun yn archebu lle ar drip ac ni fydd hwn yn cael ei ad-dalu os yw rhywun yn tynnu'n ôl. Diolch yn fawr.




**Royal Victoria Hotel** LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau ● Achlysuron Arbennig ● Cynadleddau
Pwyllgorau ● Bwydlen Bar
● PRIODASAU ●

Ffôn - 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk





Dewch am dro
i'r siop am wledd
o lyfrau i'ch ysbrydoli

Ar y Stryd Fawr ac Ar Lein

Palas PRINT

10 Stryd y Plas Caernarfon
01286 674631
siop@palasprint.com
palasprint.com

# Un funud fach …

## PASG HWYR

'Ydi.'

Mentraf ddweud y gofynnir un cwestiwn bach lawer gwaith dros yr wythnosau nesaf, ac felly dyma roi'r ateb i chi rhag blaen. 'Ydi, mae'r Pasg yn hwyr eleni.' Ond nid mor hwyr ag y gall fod chwaith. Ar Ebrill 25ain y bydd Sul y Pasg eleni. Ond o gofio y gall fod mor gynnar â Mawrth 22ain, dyw hi ddim yn syndod ein bod fel arfer – naw blwyddyn o bob deg – yn ei ddathlu'n gynharach nag a wnawn y tro hwn.

Ia, Pasg hwyr fydd hi. Mae disgyblion ac athrawon ysgol yn gwybod hynny'n iawn gan fod Tymor y Gwanwyn eleni dair wythnos yn hwy na'r llynedd. Felly pan ddaw gwyliau'r Pasg, siawns y caiff y cawn ni rywfaint o dywydd braf o gofio y byddwn o fewn wythnos i ddechrau Mai erbyn i'r plant fynd nôl i'r ysgol. Am yr un rheswm, mae Pasg hwyr yn newydd da i'r amrywiol fusnesau sy'n darparu ar gyfer ymwelwyr. Gall yr ystod o 34 diwrnod rhwng y Pasg cynharaf a'r hwyraf posib wneud byd o wahaniaeth o ran tywydd a phrysurdeb a lliw ac elw'r Pasg.

Ond dydi'r gwahanol ddyddiad ddim yn gwneud gwahaniaeth i rai. Mae'r wyau Pasg yn y siopau drannoeth y Nadolig pryd bynnag y bydd y Pasg. Ac o'r hyn a gofiaf o'r blynyddoedd y buom yn byw yn Abersoch, roedd ymwelwyr ar y stryd yn eu dillad glan môr ar fore'r Groglith, boed hwnnw ar Fawrth 20fed neu Ebrill 23ain … a beth bynnag y tywydd!

Waeth i mi heb â chymryd arnaf y medraf egluro'n syml y rheswm dros y gwahanol ddyddiadau ar gyfer y Pasg. I eglwysi Cristnogol y Gorllewin, mae'r Pasg ar y Sul wedi'r lleuad lawn gyntaf yn dilyn Cyhydnos y Gwanwyn. A bod yn onest, mae'r cyfan yn llawer rhy gymhleth i mi. Ond diolch am hynny, nid y dyddiad na'r rheswm drosto sydd bwysig, ond yr hyn a gofir ar yr Ŵyl arbennig hon. Dyw hwnnw ddim yn newid o'r naill flwyddyn i'r llall. Os yw'r dyddiadau'n anodd eu deall i'r mwyafrif ohonom, nid felly'r hyn a gofiwn.

Eleni eto, bydd miliynau o bobl ym mhob cwr o'r byd yn cofio dioddefaint a marwolaeth ac atgyfodiad yr Arglwydd Iesu Grist. Cofio, ie. Ond mewn ffordd ryfedd - sy'n ddirgelwch llwyr i'r mwyafrif o bobl, gwaetha'r modd - yn dathlu hyd yn oed, ac yn diolch am y farwolaeth honno am mai drostyn nhw y digwyddodd y cyfan. Iddyn nhw, nid pryd y dethlir y Pasg sy'n bwysig, ond pam. Dyw hi ddim wir o bwys a fedrwn egluro'r gwahanol ddyddiadau ai peidio. Ond y mae o'r pwys mwyaf ein bod yn gweld yr Un a fu farw, a'n bod yn deall pam y digwyddodd hynny. A'r peth syfrdanol ydi nad oes angen clyfrwch na gallu i ddatrys y dirgelwch syfrdanol bod yr unig un perffaith a fu fyw erioed wedi dioddef a marw fel troseddwr ar groes. Mae pobl o bob gradd a chefndir ar hyd y cenedlaethau wedi gweld a deall a rhyfeddu at y digwyddiadau - ac yn bwysicach na hynny, at y person - a gaiff ein sylw dros yr Ŵyl.

Gall y lleiaf ei allu a'i statws gredu a gweld a deall, lawn cystal â'r mwyaf clyfar a'r pwysicaf o bobl y byd. Oherwydd Duw ei hun sy'n galluogi unrhyw un ohonom i gredu'r newydd da am ei Fab Iesu Grist yn ei roi ei hun i ddioddef a marw yn ein lle ar Galfaria. Ac o gredu hynny, boed pob Pasg – hwyr neu gynnar – yn ddedwyddwch ac yn obaith i bawb ohonom.

**JOHN PRITCHARD**

# Castell Dolbadarn

Adeiladwyd dau fath o gestyll yng Nghymru. Adeiladwyd rhai i gadw'r Cymry mewn trefn, tra adeiladwyd y gweddill i amddiffyn y Cymry rhag eu gelynion.

Mae'n debyg mai'r tywysog Llywelyn Fawr (Llywelyn ab Iorwerth) adeiladodd Castell Dolbadarn yn ystod diwedd y ddeuddegfed ganrif. Mae'n edrych allan dros ddyfroedd Llyn Padarn a Bwlch Llanberis. Roedd y castell yn arwydd o rym ac awdurdod Llywelyn ac yn gwarchod Bwlch Llanberis (oedd yn llwybr mewndirol poblogaidd o Gaernarfon i Ddyffryn Conwy bryd hynny).

Mae'r tŵr crwn yn dal i sefyll ac yn enghraifft ardderchog o dwr crwn Cymreig tra bo olion rhannau eraill o'r castell yn dal i'w gweld ar y safle. Fodd bynnag yn 1284 cipiodd Edward 1af (brenin Lloegr ar y pryd) y castell a defnyddio peth o'r gwaith coed, er mwyn adeiladu ei gastell newydd yng Nghaernarfon. Dyma symbol o rym Normanaidd yn cipio a chadw rhan o eiddo pwysicaf y tywysogion Cymreig. Rhwbio halen ar y briw go iawn.

Cadw sy'n gwarchod Castell Dolbadarn erbyn hyn.



Castell Dolbadarn


CWYR



YDY CLUSTIAU LLAWN CWYR YN EICH DAL YN ÔL?

GWASANAETH TYNNU CWYR AR GAEL YN EIN FFERYLLFA YN LLANBERIS

HOLWCH AM YMWELIADAU CARTREF

Fferyllwyr Llŷn

Fferyllfa I Ellis Jones, Llanberis

01286 800113

fferyllwyrllyn.co.uk



Premier

SIOP SGWÂR LLANRUG

01286 673108

Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd, Cardiau Cyfarch, SWYDDFA BOST, a chroeso cynnes.

# Ysgol Brynrefail






**Taith Adran Dyniaethau Ysgol Brynrefail i Wlad yr Iâ gan Iwan Barker-Jones**

*Diwrnod 1 - 20/3/25*

Wedi hir ymaros roedd y diwrnod mawr wedi cyrraedd. Bu'n rhaid cychwyn o Lanrug yn blygeiniol o gynnar er mwyn cyrraedd maes awyr Manceinion mewn da bryd. Fe weithiodd popeth yn hynod hwylus ac roeddem yn glanio yng Ngwlad yr Iâ ychydig cyn tri o'r gloch yn y prynhawn.

Roedd camu allan o faes awyr Keflavik yn wir fel camu i fyd arallfydol. Er bod y glaw yn gwneud i ni deimlo yn gartrefol, roedd y pridd du, y creigiau igneaidd a'r llosgfynyddoedd yn ein hatgoffa ein bod yn bell iawn o Gymru fach.

Uchafbwynt y prynhawn oedd ymweld â 'Perlan - Wonders of Iceland'. Cawsom ddysgu am yr aurora borealis yn y planetariwm ac echdoriad llosgfynydd Geldingadalir. Yr uchafbwynt heb os oedd cael profi ogof iâ mewn tymheredd o -10°C. Roedd y golygfeydd o ddinas Reykjavík o lawr uchaf yr adeilad yn drawiadol iawn hefyd, gydag eglwys Hallgrímskirkja yn nodwedd amlwg yn y tirlun.

Wedi tamaid o swper, doedd dim amser i orffwys gan ein bod yn mynd i chwilio am Oleuni'r Gogledd. Er bod y glaw wedi peidio, doedd pethau ddim yn edrych yn addawol yn ôl ein tywysydd. Gan eu bod yn cael eu creu gan ffagliad heulol, does wybod pryd yn union y byddant yn ymddangos. Buom yn gyrru am hir gan stopio mewn sawl man gwahanol, ond heb weld dim. Pan roedd yn edrych fel bod ein hymdrechion yn mynd i fod yn ofer, am 11.30 yr hwyr fe dalodd ein dycnwch ar ei ganfed a chawsom ein cyfareddu wrth weld yr awyr yn goleuo'n wyrdd, piws, oren a choch.

*Diwrnod 2 - 21/3/25*

Siwrnai i dde'r ynys oedd ar y gweill heddiw er mwyn dysgu am ryfeddodau naturiol Gwlad yr Iâ. Doedd pethau ddim yn argoeli'n dda pan dorrodd ein bws i lawr yng nghanol un o groesffyrdd prysuraf Reykjavík! Yn ffodus, doeddem fawr o dro yn trosglwyddo i fws arall, ac fe weithiodd popeth yn esmwyth am weddill y diwrnod.

Ein cyrchfan gyntaf oedd y 'Lava Centre' yn Hvolsvöllur. Cafwyd cyfle i ddysgu am safle daearyddol unigryw Gwlad yr Iâ sydd ar y ffin rhwng platiau tectoneg Ewrasia a Gogledd America. Golyga hyn bod daeargrynfeydd ac echdoriadau folcanig yn ddigwyddiadau rheolaidd.

Ymlaen wedyn i draeth tywod du byd enwog Reynisfjara ar arfordir deheuol Gwlad yr Iâ. Yn dilyn cael ei ddefnyddio fel lleoliad ffilmio ar gyfer Game of Thrones, mae'r traeth bellach yn denu selogion y gyfres yn eu miloedd. Roedd yn brofiad a hanner gweld tonnau gwyllt cefnfor yr Iwerydd yn torri ar y traeth folcanig, gyda staciau arfordirol Reynisfjara yn gefndir dramatig i'r cyfan.

Uchafbwynt y dydd i lawer oedd taith gerdded ar rewlif Sólheimajökull sy'n gorchuddio llosgfynydd Katla. Yn ôl y gwybodusion mae'n amser i'r llosgfynydd ffrwydro eto, ond yn ffodus i ni roedd popeth yn dawel, a llwyddodd pawb i gyflawni'r daith 5km gyda chymorth cramponau, a chafodd rhai wlychu eu llwnc gyda'r dŵr crisial oedd yn llifo o'r rhewlif.

Cyn troi'n ôl tua Reykjavík roedd dau ryfeddod arall yn ein disgwyl - rhaeadrau Skógafoss a Seljalandsfoss. Bu rhai ohonom yn ddigon dewr i gerdded yr holl ffordd o amgylch un ohonynt, oedd yn gyfystyr a chael cawod yn ein dillad!

Roedd y diwrnod wir yn fythgofiadwy, ac i goroni'r cyfan gwnaeth yr aurora borealis ymddangosiad arall nepell o'n gwesty.

*Diwrnod 3 - 22/3/25*

Er ein bod wedi profi cymaint yn barod, roedd ein trydydd diwrnod yng Ngwlad yr Iâ yn argoeli i fod yn un gwerth chweil eto.

Roedd hi'n fore llwydaidd a glawog wrth i ni adael Reykjavik a theithio i Orsaf Bŵer Geothermal Hellisheiði. Hon yw'r fwyaf yng Ngwlad yr Iâ, a'r wythfed fwyaf yn y byd. Mae'n cynhyrchu 303 MW o drydan a 200 MWth o ddŵr poeth, sy'n gyfystyr a 30% o holl anghenion yr ynys. Roedd hyn yn atgoffhad amserol bod yna lawer mwy y gallwn ni yng Nghymru a Phrydain ei wneud i ddatblygu mwy o ynni glân adnewyddadwy.

Er ein bod wedi gweld rhaeadrau ysblennydd yn barod, ni ellid peidio rhyfeddu wrth weld mawredd rhaeadr Gullfoss. Does ryfedd ei fod wedi'i ddefnyddio sawl gwaith mewn diwylliant poblogaidd, gan gynnwys ar flaen albwm y band Echo & the Bunnymen!

Wrth symud ymlaen i'r lleoliad nesaf, profiad annisgwyl oedd stopio ar ochr y ffordd i gael mwytho a bwydo ceffylau. Mae lle i feddwl bod y ceffylau yma o Wlad yr Iâ wedi eu mewnforio i Gymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg i weithio fel merlod yn y pyllau glo.

Mae Gwlad yr Iâ yn enwog am ffynhonnau poethion, ac un o'r giserau enwocaf yw Strukkur. Mae'n ffrwydro'n rheolaidd bob rhyw 6 - 10 munud, a gall gyrraedd uchder o 40m. Rydym yn falch o gyhoeddi bod pawb wedi cadw'n ddiogel, a bod neb wedi camu yn y dŵr berwedig fel y gwnaeth Ed Sheeran tra ar ymweliad yn 2016!!

Cyn troi am adref roedd cyfle i ymweld â Pharc Cenedlaethol Thingvellir, a gweld lleoliad cyntaf Senedd Gwlad yr Iâ, a ystyrir yr hynaf yn y byd, gan ei fod wedi ei sefydlu yn 930 AD.

Yn ôl yn Reykjavík cafodd pawb hwyl yn ceisio dianc o'r 'Escape Rooms', a llwyddodd pob grŵp ond un i wneud hynny (ond i fod yn deg â nhw dim ond 10% sy'n llwyddo i ddianc o'r ystafell benodol hon!). Cawsom swper mewn tŷ bwyta



lleol, oedd fwy neu lai gyferbyn ag adeilad Höfði - lleoliad enwog Cynhadledd Reykjavík yn 1986 ble cyfarfu Ronald Reagan a Mikhail Gorbachev pan roedd y Rhyfel Oer ar ei anterth.

Erbyn hyn roedd rhai yn barod am eu gwlau, ond roedd gan eraill ddigon o egni i aros i fyny i chwarae cwis a bingo. Llongyfarchiadau i'r buddugwyr, a gobeithio eu bod wedi mwynhau'r 'Fish Jerky' fel un o'r gwobrau!

*Diwrnod 4 - 23/3/25*

Roedd Gwlad yr Iâ yn amlwg ar flaen y gad o ran democratiaeth, gyda'r senedd gyntaf (Althingi) yn cael ei sefydlu yn 930 AD. Ymddengys eu bod hefyd yn arloesi o ran cydraddoldeb a hawliau merched. Roedd merched Gwlad yr Iâ ymysg y cyntaf yn y byd i dderbyn y bleidlais yn 1915, ac erbyn heddiw mae gan y wlad Arlywydd, Prif Weinidog, Esgob, Comisiynydd yr Heddlu a Thwrnai Cyffredinol benywaidd. Ein cyrchfan gyntaf oedd Bessastaðir - cartref yr Arlywydd. Dychmygwch ein syndod wedi arfer gyda diogelwch caeth Prydeinig wrth gael cerdded yn hamddenol o amgylch yr adeilad, a thynnu lluniau ar y lawnt.

Am weddill y bore buom yn archwilio Penrhyn Reykjanes, gan gynnwys ardaloedd geothermal hynod weithredol Gunnuhver a Krýsuvik. Roedd yn rhaid i ni ddal ein trwynau rhag yr oglau cyfoglyd wrth fynd i weld y pyllau mwd, fentiau stem, ffynhonnau poeth a dyddodion sylffwr.

Cafwyd sawl cyfle i weld tonnau gwyllt y môr yn torri ar yr arfordir caregog, ac i unrhyw edmygydd o'r actor Will Farrell fe ffilmiwyd golygfa o'r ffilm gomedi 'Eurovision Song Contest: The Story of Fire Saga' ar draeth clogwynog Valhnukamol, ac mae'r allweddellau yn dal yno! Roedd rhai wedi gwirioni hefyd wrth weld symudiad allan yn y môr a sylwi mai morfilod oedd yno.

Profiad rhyfedd oedd ymweld gyda thref bysgota fechan Grindavík. Tan 2023 roedd yn gartref i 3,000 o bobl, ond oherwydd echdoriadau cyson penderfynodd y llywodraeth bod yn rhaid i'r dinasyddion adael a pheidio dychwelyd. Roedd 'na deimlad iasoer wrth yrru trwy'r strydoedd gwag yn edrych ar y parciau, yr ysgolion a'r cartrefi a fu unwaith mor fywiog.

Roedd cyfle am un weithgaredd arall, sef croesi'r 'bont rhwng dau gyfandir' sydd yn cysylltu platiau tectoneg Ewrasia a Gogledd America.

Wedi pedwar diwrnod hynod o brysur roedd hi'n amser i ymlacio yn spa y 'Blue Lagoon'. Mae'r spa moethus yn defnyddio dŵr cynnes o orsaf bwer geothermal gyfagos, ac mae'n llawn mineralau. Cawsom cwpl o oriau bendigedig yn ymdrochi yn y dyfroedd poethion. Prin roedd y disgyblion yn adnabod yr athrawon yn dilyn y 'face mask' mwd gan eu bod yn edrych cymaint yn fengach!!

Wedi bwyd blasus mewn tŷ bwyta, gyda'r nos fe aethom am daith gerdded o amgylch Reykjavik gan ymweld gydag eglwys drawiadol Hallgrímskirkja, a cherflun Leif Erikson, a aeth i Ogledd America 500 mlynedd cyn Christopher Columbus yn ôl y chwedl.

Yn ôl yn y gwesty cawsom gyfle i ddosbarthu ambell i wobr i goffau'r daith, cyn pacio a cheisio cael mymryn o gwsg cyn i'r bws ddod i'n casglu am 3.00 y bore.

Roedd yr holl daith yn brofiad arbennig a bythgofiadwy. Mewn cyfnod pan mae ymddygiad pobl ifanc yn gyson o dan y lach, mae'n rhaid canmol pob un wan jac o'r disgyblion am eu cwrteisi, eu ffraethineb, eu dycnwch a'u aeddfedrwydd. Diolch o galon i'r holl athrawon am roi o'u hamser, ac yn benodol i Miss Beca Clwyd Owen, y Pennaeth Daearyddiaeth am yr holl waith trefnu.




**Ysgoloriaethau**
Llongyfarchiadau enfawr i Wil Ratchford a Deri Hockley o flwyddyn 11 am sicrhau ysgoloriaeth lawn i Goleg Ryngwladol yr Iwerydd. Bydd Deri yn astudio yng Ngoleg yr Iwerydd ( a dim ond 30 o bobl ifanc TRWY BRYDAIN sy'n cael lle!), a bydd Wil yn astudio yn Kamhlaba, Eshatini, De Affrica y flwyddyn nesaf.



**Byd Gwaith**
Cafodd Blwyddyn 9 gyfle i gael blas ar fod yn beirannwyr yn Siemens, diolch i Siemens Healthineers ac EESW.

Bu'r disgyblion yn gwrando ar Tomos o Swig a Buddug Roberts am eu hanes nhw yn sefydlu busnes llwyddiannus. Diolch i Nia o Llwyddo'n lleol am drefnu.




## BRYNREFAIL

**Sefydliad y Merched**
Croesawyd yr aelodau i gyfarfod mis Chwefror gan y llywydd Pat Jones. Estynwyd croeso arbennig hefyd i saith o aelodau o gangen Dolwyddelan a oedd wedi ymuno ar y noson ar gyfer cystadleuaeth Boccia. Mwynhaodd pawb y cystadlu a'r amser hwyliog dreuliwyd a oedd dan ofal Carol Houston. Cafwyd paned a theisen ar y diwedd a gair o ddiolch am y croeso gan Alison Richmond o Ddolwyddelan am noson arbennig o hwyliog a hapus.

Cangen Dolwyddelan oedd yn fuddugol yn y gystadleuaeth ac estynwyd gwahoddiad i gangen Brynrefail ymweld â Dolwyddelan am ornest arall yn y dyfodol.

Edrychir ymlaen am ein Cyfarfod Blynyddol yn ystod mis Mawrth ynghyd ag Arddangosfa Goginio.








# BETHEL A SEION

**Clwb Bro**
Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, clywyd llawer o sôn am Bontio'r Cenedlaethau. Golyga hyn gynnal gweithgareddau sy'n dod â grwpiau o bobl hŷn ac iau at ei gilydd, a sicrhau ystod o fanteision i bawb sy'n cymryd rhan.

Dyna fu hanes Clwb Bro Bethel ym mis Mawrth, wrth i ni ddathlu Gŵyl Ddewi. Bore Mawrth, y 4ydd o Fawrth, cawsom ymweld ag Ysgol Bethel. O'r funud y bu i ni gamu i dir yr Ysgol, rhoddwyd croeso cynnes i ni gan y disgyblion a'r athrawon.

Ar ôl i ni fwynhau paned a chacen gri, cafwyd gair o groeso gan y Prifathro. Yna cawsom awr o adloniant safonol, yn gwrando ar y disgyblion yn llefaru, dawnsio a chanu. Cafwyd caneuon gwerin traddodiadol, emynau a ffefryn y plant, 'Dwylo dros y Môr'.

Yn 2023, bu'r disgyblion yn gweithio gyda'r gyfansoddwraig Manon Llwyd i ysgrifennu anthem i'r Ysgol, a chawsom glywed ffrwyth eu llafur. Roedd yn amlwg fod y disgyblion yn mwynhau canu ac yn cael cyfle i ddysgu patrymau iaith trwy wneud hyn. Diolch yn fawr iawn a llongyfarchiadau i'r staff am eu gwaith. Diolchwyd i'r disgyblion a'r staff ar ran y Clwb gan ein Llywydd, Mary Wyn Jones. Cyflwynwyd rhodd ariannol i'r Ysgol yn arwydd o'n gwerthfawrogiad o'r cyfan.

Ar gyfer ail ran y dathlu, aethom ymlaen i Gaffi'r Bedol. Cawsom ddewis o lobsgows neu gawl cennin, bara brith a chacennau cri. Diolch i staff y Caffi am y croeso ac am baratoi pryd blasus.

Enillwyd y raffl gan Megan Humphreys ac Anne Ellis Williams.

Bydd y cyfarfod nesaf bnawn Mawrth, 1af Ebrill, yn Festri Cysegr am 1.30 pm. Y siaradwr gwâdd fydd y Prifardd Ieuan Wyn. Testun ei ddarlith fydd 'Hiwmor y Dyffryn (Chwarelwyr)'. Croeso i chwi ymuno â ni.



**Dathlu Dewi**
Daeth cynulleidfa deilwng draw i'r Cysegr i gefnogi plant yr Ysgol Sul oedd yn gyfrifol am yr Oedfa Gŵyl Ddewi ar Fawrth 2il. Cafwyd amrywiaeth o agweddau ar fywyd Dewi, wedi eu cyplysu â'n sefyllfa ni heddiw. Diolch i'r plant ac i'w hathrawon unwaith eto. Diolch hefyd i'r merched fu'n paratoi'r bara brith a theisenau cri blasus a fwynhawyd yn y Festri wedi'r oedfa.




**Clwb Bowlio Mat Byr**
Braf oedd galw i mewn i'r Neuadd ar bnawn Mercher i weld yr aelodau brwdfrydig yn cymdeithasu ac ymarfer ar gyfer gemau yng Nghyngrair Gwynedd/ Môn. Mae tri mat ar gael erbyn hyn, ac yn amlwg roedd y 'cystadlu' mewnol yn frwd. Roedd ambell i aelod newydd yn britho'r criw.

Mae'r tymor cystadlu'n prysur ddirwyn i ben. Cymysglyd fu'r canlyniadau, sydd i'w ddisgwyl gan glwb ar ei brifiant. Rwy'n siwr y bydd ymrwymiad y ffyddloniaid i'r achos yn prysur ddwyn ffrwyth. Ysgol ddrud yw ysgol brofiad. Mae'r elfen gymdeithasol ar eu 'teithiau' i glybiau eraill yn fonws, ynghyd â'r baned a chacen.

Yn ddiweddar, bu Robin Jones yn cynrychioli Gwynedd ym Mhencampwriaeth Bowlio Dan Do Cymru yn Llandrindod. Tipyn o fraint, a chyfle i fagu profiad.

Fel o'r blaen, estynnir croeso i unrhyw bentrefwr sydd â diddordeb mewn ymuno. Braf fuasai gweld ambell i aelod 'ifancach' yn ymuno â'r rhengoedd. Nid gêm i'r henoed yn unig yw'r bowlio mat byr. Am fwy o fanylion cysylltwch ag Idris Rees, Stâd y Rhôs.

**Gwireddu Breuddwyd**
Dyna fydd gobaith dau frawd o Seion, Llanddeiniolen ar Sadwrn cyntaf mis Ebrill. Mae Elis a Bedwyr Jones, Y Fachell, yn gobeithio camu i faes Stadiwm y Mileniwm, Caerdydd fel aelodau o garfan Clwb Rygbi Caernarfon. Ers sawl blwyddyn, gan fod cymaint o fechgyn a merched o Fro'r Eco wedi cynrychioli'r Clwb, dyma glwb rygbi mabwysiedig yr Eco. Yr achlysur yw gemau terfynol Cwpanau Adrannol Cymru. Bydd Caernarfon yn herio Penybont Athletic o'r De yn rownd derfynol y Cwpan i glybiau adran 1 Cymru (*Division* 1). Yn hyn o beth, bydd yn dilyn camp Nant Conwy yn yr un gystadleuaeth. Cafwyd buddugoliaeth yn y rownd gyn-derfynol yn erbyn Sgiwen ar faes Llanidloes.

Ers yn blant mân yn Ysgol Bethel, mae'r brodyr wedi magu cysylltiad â Chlwb Caernarfon. Gweithio'u ffordd drwy'r timau oedrannol i'r tîm ieuenctid, ac yn awr i'r tîm hŷn. Datblygiad wedyn oedd cynrychioli timau oedrannol RGC. Maent wedi magu tipyn o brofiad am ddau mor ifanc. Ac yn fwy rhyfeddol, blaen-asgellwyr (wing-forwards) yw'r ddau: Elis yn gwisgo crys rhif 7 a Bedwyr yn gwisgo crys rhif 6. Rhyfedd meddwl bod Jac Morgan, capten ysbrydoledig Cymru mewn cyfnod anodd, hefyd yn flaen-asgellwr, a fawr hŷn na nhw.

Hefyd yn y garfan mae Armando Morgan a Sam Williams o Fethel. Dymunwn yn dda iddynt.

Fe fyddaf i lawr yn y gêm, a chan fod nifer o'r garfan o Fro'r Eco, gobeithiaf roi adroddiad llawn o'r achlysur – ac o lwyddiant gobeithio – yn rhifyn nesaf yr Eco.



**Merched y Wawr**
Buom yn dathlu Gŵyl Dewi yng Nghaffi'r Bedol, ble y cawsom wledd o lobscows, cawl cennin, bara brith a chacen gri, gan ddiolch yn arbennig i Sasha a Sian am wirfoddoli i weini arnom. Croesawodd Liz ein Llywydd ni, gan roi croeso arbennig i Nan Rowlands, braf iawn ei gweld yn gwella ar ôl cael llawdriniaeth gymhleth. Anfonwyd cofion at Gwyneth Jones sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd, a llongyfarchiadau i Gethin ŵyr Rita sydd wedi dyweddio yn ddiweddar.

Bydd y gangen yn dathlu ei phenblwydd yn 50 ar Fai y 14eg, am 6.30pm yn y Neuadd Goffa, pryd y bydd gwahoddiad i gyn aelodau ddod atom i ddathlu. Pris y noson fydd £10 am y bwffe, ac fe ofynir i aelodau ddod a'r taliad i gyfarfod Mis Ebrill.

Ein gŵr gwadd oedd Ken Hughes, prin oedd angen cyflwyno y gŵr amryddawn hwn, a nifer o'n aelodau yn ei adnabod ers blynyddoedd, ond o bosib ddim yn ei adnabod yn iawn. Cawsom ein harwain o'r dwys i'r digri, ond chwerthin oedd cyfeiliant amlycaf y noson. Soniodd fel yr oedd wedi ei fagu mewn cartref cyffredin a'i fam yn weddw pan oedd Ken ddim ond yn flwydd oed – pwysleisiodd, os oes gennych freuddwyd fe allwch gyflawni unrhywbeth, ond i chi bob amser gofio o lle y deuthoch. Dwy wraig sydd wedi cael dylanwad arno; ei fam ac athrawes yn yr ysgol, Miss Mat Pritchard a'i ysgogodd i ganolbwyntio ar ei addysg ac i fynd i'r brifysgol.



Cawsom sbec ar ei amrywiol ddiddordebau, ei hoffter at farddoniaeth, yn enwedig T H Parry Williams, at deithio, at gerddoriaeth, cawsom hanes ei waith teledu, a'i falchder o'i ddylanwad ar blant bu'n eu haddysguu dros y blynyddoedd. Ond un o'i ddiddordebau amlycaf yw siopa a dillad, gyda lliw ac ansawdd yn hanfodol. Roedd wedi ei wisgo mewn dillad a gafodd o Macy's yn *New York* (gan nodi nad ydi Efrog Newydd yn cyfleu y lle yn iawn!). Cawsom weld cotiau Hugo Boss sydd ganddo, brogues lledr a siaced werdd llachar yr oedd wedi ei wisgo i briodas. Roedd wedi paratoi cwis ar ddillad ar ein cyfer a Jen, Meira a Mair Williams ddangosodd mae nhw oedd y rhai mwyaf steilish yn ein plith. Yr hyn oedd yn arbennig am y noson oedd annwyldeb a natur gynnes Ken i gyflwyno ei hun a'i drysorfa bersonol.

Diolchwyd iddo gan Mary Wyn Jones ac fe enillodd Dilys, Edna a Falmai y raffl.

Fe allwch weld mwy o fanylion o'r cyfarfod ar ein gwefan https://mywbethel.org

**Oedfaon Ebrill**
**Cysegr:**
6ed Ebrill: Y Parchg Dewi Morris
13eg Ebrill: Y Gweinidog
20fed Ebrill (Sul y Pasg): Uno yn Capel y Rhôs, Llanrug
27ain Ebrill: Mr Arwel Williams

**Bethel**:
6ed Ebrill: Mr Arwel Williams
13eg Ebrill: Y Parchg Emyr Rowlands

**Clwb Cerdded Bethel**
Braf cofnodi bod Clwb Cerdded Bethel wedi ail ymgynnull wedi'r cyfnod hir o dywydd anffafriol. Am y mynydd yr anelodd yr 17 cerddwr y tro yma, i lethrau isaf Dyffryn Ogwen.

Wedi parcio yn y Ganolfan Hamdden ym Maes Bleddyn, ymlaen ar y llwybr am ardal Carneddi gan basio godre hen chwarel Pantreiniog, un o'r chwareli 'preifat' a weithwyd gan y chwarelwyr lleol yn ystod y Cloi Allan yn 1900–1903. O Carneddi, cymerwyd y llwybr mynydd i Dan y Foel, cyn cyrraedd y ffridd agored a Moel Faban yn gefndir iddo. Yno, ceir ambell i gorlan gerrig sy'n ein hatgoffa am yr helfeydd niferus dros y blynyddoedd ar odre'r Carneddau. Wedi'r helfa, cynnal y 'set fawr', ble gwerthwyd unrhyw ddefaid strae oedd wedi ymuno â'r preiddiau ar y mynydd.


Ar fore mor glir, rhaid oedd aros ac edmygu mawredd y Carneddau, a'r olygfa wych o'r copaon i lawr i'r môr yn Aberogwen. Cychwyn yn ôl ac anelu at y giat fynydd yn Nhyn y Ffridd, ac yna drwy bentref Rachub yn ôl i'r moduron. Taith bleserus o rhyw ddwy filltir a hanner. I orffen y bore, aros am baned yn y caffi ym Moel-y-Ci.

Diolch i Morfudd a Hefin am y trefnu a'r adroddiad. Edrychwn ymlaen at gael adroddiad am y teithiau cerdded yn y dyfodol. Cysylltwch â Morfudd neu Hefin am unrhyw wybodaeth am deithiau'r dyfodol.



**Cydymdeimlo**
O fewn mis i golli Michael Millican, daeth colled arall i Stâd y Ddôl. Yn dawel gartref, wedi brwydr ddewr, bu farw Eileen Jones. Rydym yn estyn ein cydymdeimlad dwysaf i Alun, Sarah, Hannah a'r teulu estynedig yn eu colled ddisymwth.

**Apêl Siop Gymunedol**



Fel y gwelwch, mae silffoedd y siop yn dechrau llenwi a'r eitemau ar werth yn cynyddu. Diolch i'r criw gweithgar sy'n mynnu mynd â'r weledigaeth ymlaen ar gyfer y pentref a'r ardal. Yn anffodus, ni ellir agor y drysau gan fod angen gwirfoddolwyr i weithio yn y Siop. Dyma apelio felly ar unrhyw un sy'n gallu rhoi unrhyw amser i wireddu'r fenter. Mae'r manylion cyswllt i'w gweld yn y llun atodol. Gobeithio y cawn ymateb.

Y flwyddyn yma eto, mae BBC Cymru/Wales yn cynnal cystadleuaeth 'Gwobrau Gwneud Gwahaniaeth'. Mae'r gwobrau wedi eu targedu at gymunedau ble mae ymdrechion unigolion/grwpiau yn gwneud gwahaniaeth i'r cymunedau. Mae 8 categori, gan gynnwys 'Gwobr Grŵp Cymunedol'. Dymuniad Pwyllgor y Caffi/Siop yw bod unigolion yn gallu bod yn enwebwyr. Yn anffodus, mae'r dyddiad cau ar 31ain Mawrth. Os hoffech enwebu ein Grŵp gweithgar, yna cysylltwch â Sian Harris.



## CAEATHRO

**Capel**
Ar y 6ed o Ebrill, cynhelir Gwasanaeth dan arweiniad y Parchedig Anna Jane, i gychwyn am 2:00pm. Ar yr 20fed o Ebrill, bydd Gwasanaeth dan arweiniad y Gweinidog, y Parchedig Nerys Griffiths, hefyd i gychwyn am 2:00pm - gweinyddir y Cymun yn ystod yr Oedfa hon.

**Clwb Garddio**
Cyfarfu Clwb Garddio Caeathro ar brynhawn dydd Mawrth 11eg o Fawrth.

Un o'n haelodau, Jean Rickford oedd ein siaradwr. Testun ei gwrs oedd Kokedama. Mae'r gair Kokedama yn llythrennol yn cyfieithu - Koke - mwsog a dama - pêl. Mae'r planhigion yn cael eu gosod o fewn cylch o gompost ac yn cael eu hamgylchynu gyda mwsog. Mae'n ddull sy'n draddodiad canrifoedd oed ym myd garddio Siapan.

Taniwyd diddordeb Jean ar ôl gwylio Jo Swift un o gyflwynwyr y rhaglen Gardeners' World yn dangos sut i baratoi planhigyn yn y dull yma.

Rhoddodd Jean enghreifftiau o'r math o blanhigion sy'n addas i'w defnyddio a chawsom weld rhai enghreifftiau o'i gwaith.

Yna, dangosodd i ni sut i baratoi planhigyn gan ddefnyddio cennin pedr ac egluro sut i ofalu amdano.

Atebodd Jean sawl cwestiwn gan yr aelodau a diolchwyd iddi gan y Cadeirydd Rhiannon Owen.

Enillydd y gystadleuaeth Blodau'r Gwanwyn oedd Wendy Morgan.

Paratowyd y baned gan Ellen ac Anne.

Ein gŵr gwadd mis nesaf bydd Bleddyn Jones, Fferm Crug yn sôn am gasglu planhigion yng Ngholombia. Croeso i unrhyw un ddod i wrando ar y sgwrs.



## PENISARWAUN

**Pwyllgor Neuadd Gymuned**
Dathliad Gwyl Ddewi
B'nawn Llun, 3ydd Mawrth am 1.30pm cynhaliwyd orig hyfryd â phlant yr Ysgol Gymuned i ddathlu Gŵyl ein Nawddsant. Braf oedd gweld y neuadd yn llawn gyda naws gymunedol braf. Llongyferchir y plant a'r athrawon am yr eitemau clodwiw gyda phob un plentyn wedi gwisgo eu dillad Cymreig. Hyfryd oedd gwrando ar y plant yn morio canu 'Rwy'n Gymro, rwy'n Gymraes', 'Hei Mistar Urdd' ac 'Mae'r wlad hon yn eiddo i ti a mi".

Llongyfarchiadau i Ioan ac Awel am eu heitemau ar y piano, i Myfi Lois ar y gitar, gyda phob lwc iddi yn y Genedlaethol, ac i Heledd am ei datganiad swynol o 'Lili Wen Fach'. Diolch hefyd i Phyllis ac Ann am eu darlleniadau gwladgarol.

Tynnwyd Clwb Cant Mawrth a'r enillwyr oedd:

1af - Dave Cunningham

2il - Delyth Williams, Pengaer

Cafwyd cyfle wedyn i gymdeithasu a mwynhau paned a bara brith a theisennau cri.



### LLWYDDIANT KARATE

Llongyfarchiadau i Elis a Joe ar raddio i felt arall ym myd Karate. Mae Elis wedi symud fyny i felt glas a Joe wedi graddio un step yn nes at gyflawni belt du yn mis Medi. Cânt eu hyfforddi yn Burmans Martial Art yn Llanberis.

**Miri Mai**
Cynhelir 'Miri Mai' ar nos Fercher, 14eg o Fai am 6.30pm gyda stondinau amrywiol yn y Neuadd Gymuned, a chystadlaethau o bob math i ddilyn ar gaeau'r Ysgol. Dewch i gymdeithasu ac ymuno yn yr hwyl.

**Llogi'r Neuadd**
Atgoffir chi bod modd llogi'r Neuadd a'r Ystafell Gymuned, gyda lle i barcio ceir, am bris rhesymol iawn, drwy gysylltu â'r Trysorydd, Mr Glyn Jones, ar 01286 870 433.

**Menter Fachwen**
Cafwyd noson ddifyr yng nghwmni Gareth Roberts o Menter Fachwen ddechrau Mawrth, yn clywed am hanes y pentref. Bu Gareth hefyd yn arwain taith gerdded o amgylch y pentref ychydig ddyddiau'n hwyrach. Diolch yn fawr Gareth - mae'n braf iawn cael y cyfle i hel atgofion am ein pentref.

**Eglwys Santes Helen**
Cyfarfod Cynulleidfa Santes Helen

Cynhaliwyd y cyfarfod diweddaraf yn Neuadd yr Eglwys wedi'r Gwasanaeth fore Sul, 2il Mawrth dan lywyddiaeth y Ficer, y Canon Naomi Starkey.

Hysbyswyd y bydd sylw yn cael ei roi i dudalen Eglwys Santes Helen ar Safle Gwefan Bro Eryri gyda grŵp yn ymgymryd â chywiro a diweddaru y safle yn ystod y flwyddyn.

Bu archwiliad ar gangell yr Eglwys yn ddiweddar a disgwylir adroddiad maes o law ar gyflwr y nenfwd.

Adroddwyd fod y cysylltiad llwyddiannus yn parhau rhwng yr Eglwys â'r Ysgol leol gyda gwasanaethau cyson wedi eu cynnal.

Trafodwyd ymhellach y nod o ymestyn allan i'r gymuned sydd yn rhan o waith arfaethedig yr Eglwys dan arweiniad y Ficer. Trefnir cael Eglwys Agored ar foreau Llun rhwng 9.30am a 12.30pm a nos Fercher o 6.00pm hyd 9.00pm.

Cynhelir y cyfarfod cynulleidfa nesaf wedi'r Gwasanaeth Boreol ar Fai 4ydd.

Gwasanaethau Mis Ebrill
6ed, Pumed Sul y Grawys, 11.00am - Cymun Bendigaid
13eg, Sul y Blodau, 11.00am - Cymun Bendigaid
18fed, Gwener y Groglith, 1.00pm - Gwasanaeth 'Wrth y Groes'
20fed, Sul y Pasg, 11.00am - Cymun Bendigaid y Pasg
27ain, Ail Sul y Pasg, 11.00am - Boreol Weddi

Estynnir croeso cynnes i bawb i'r Gwasanaethau gyda phaned a chymdeithasu yn dilyn pob Gwasanaeth yn Neuadd yr Eglwys.

# Ysgol Penisarwaun

**Ymddeoliad**
Hoffwn ddiolch i Mrs Carole Porter am ei gwasanaeth arbennig i'r ysgol am dros ddeg ar hugain o flynyddoedd. Bu Anti Carole yn gweithio fel goruchwyliwr Ganol Dydd yn hen Ysgol Tan y Coed i ddechrau ac yna yma yn yr Ysgol Gymuned. Diolch yn fawr iawn i chi Anti Carole am eich gofal a'ch cyfeillgarwch tuag at blant yr ysgol dros yr holl flynyddoedd , bydd pawb yn colli eich cwmni.

Bydd Anti Carole yn parhau i oruchwylio yn y Clwb Brecwast.

**Croeso**
Mae Mrs Emma Davies bellach yn Bennaeth mewn gofal yn yr ysgol dros gyfnod absenoldeb y Pennaeth. Dymuniadau gorau, a diolch iddi am ymgymryd â›r cyfrifoldeb arbennig hwn, gobeithio bydd yn cael pleser a mwynhad o'r profiad a'i hamser yn yr ysgol. Diolch yn fawr.

**Dymuniadau gorau a Chroeso**
Hoffwn ddymuno yn dda i Miss Tania sydd bellach i ffwrdd o'r ysgol ar gyfnod mamolaeth yn dilyn genedigaeth Elis Tomos. Dymuniadau gorau i'r teulu.

Mae Miss Nel wedi ei phenodi i weithio yn yr ysgol dros gyfnod absenoldeb Miss Tania. Dymuniadau gorau iddi a chroeso i'r ysgol.

**Dydd Gŵyl Dewi**
Cafwyd Gwasanaeth Gŵyl Ddewi gwerth chweil yn y Neuadd unwaith eto. Braf oedd gweld y Gymuned a'r Ysgol yn parhau i gydweithio mor glos. Diolch i Bwyllgor y Neuadd am drefnu ac am y cyfle i ddisgyblion gyfrannu a pherfformio o flaen cynulleidfa. Diolch hefyd i bawb a gefnogodd yr achlysur.

**Taith Glan Llyn**
Bydd disgyblion blynyddoedd 5 a 6 yn mynd ar daith breswyl i Wersyll yr Urdd yn Glan llyn cyn yr hanner tymor. Dymuniadau gorau i bawb, a gobeithio bydd pawb yn mwynhau'r profiad. Edrychwn ymlaen at glywed yr hanes.

**Gwyliau'r Pasg**
Bydd yr ysgol yn cau am wyliau'r Pasg brynhawn Gwener, 11eg Ebrill. Bydd yr ysgol yn ail agor i ddisgyblion ddydd Mawrth 29ain Ebrill. Dymunwn wyliau Pasg hapus i bawb.





**Diwrnod y Llyfr**
Cafwyd dathliadau arbennig yn yr ysgol i ddathlu Diwrnod y Llyfr. Cafodd pawb bleser a mwynhad yn gwisgo fel cymeriad o lyfr. Cafwyd amrywiaeth o wisgoedd diddorol unwaith eto eleni. Diolch i bawb am fod mor greadigol ac am fynd i'r drafferth er mwyn sicrhau ein bod yn cael diwrnod gwerth chweil i ddathlu'r achlysur. Da iawn bawb.






**Cefn Gwlad a'r Sioe Frenhinol**
Bu Mari Lovgreen a chriw ffilmio Cefn Gwlad ym Mhenisarwaun ddechrau Mawrth yn ffilmio hefo Rhys Griffith a theulu Tros y Waen, ac yn eu dilyn i sioe Cymdeithas Ceffylau Sir lle cafodd Rhys lwyddiant hefo'r Stalwyn Trem y Wyddfa Monarch gan ddod yn ail yn y dosbarth *Senior Stallions*.

Sir Caernarfon yw Sir Nawdd Sioe Frenhinol Cymru eleni, ac Rhys Tros y Waen ydi Llysgenad y Sioe am y flwyddyn. Mae Rhys a'r pwyllgor wedi bod yn brysur dros ben yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn trefnu amrywiaeth o ddigwyddiadau i godi arian at y Sioe, gan gynnwys ocsiwn addewidion, brecwastau, saethu colomenod clai, taith merlota, a thaith tractorau Nadolig. Gweler restr o'r digwyddiadau sydd i ddod rhwng rwan a wythnos y Sioe fawr yn nhudalennau blaen yr Eco. Bydd criw yn seiclo 95 milltir o amgylch y sir hefyd ar Sadwrn 10fed Mai gan orffen yng Ngŵyl Fwyd Caernarfon - ewch draw i'w cefnogi os y medrwch.

Bydd y rhaglen Cefn Gwlad yn cael ei darlledu fis Gorffennaf - cadwch lygad allan amdani!



# Mynediad am ddim i deuluoedd incwm is i Eisteddfod yr Urdd 2025

Diolch i gefnogaeth ariannol o £200,000 gan Lywodraeth Cymru mae Urdd Gobaith Cymru yn falch o gadarnhau bydd teuluoedd incwm is yn medru hawlio tocynnau am ddim i Faes Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr, Parc Margam a'r Fro 2025.

Mae'r Urdd eisoes wedi ymrwymo i gynnig mynediad am ddim i Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth i deuluoedd ac unigolion sydd yn derbyn cefnogaeth talebau cinio ysgol am ddim, grant cynllun gwisg ysgol neu lwfans cynhaliaeth addysg 16-18 fel cymorth ariannol.

Yn arwain at yr Eisteddfod, bydd yr Urdd hefyd yn cyd-weithio â Chyngor Castell-nedd Port Talbot, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a sefydliadu sydd yn cefnogi teuluoedd incwm isel i sicrhau fod y wybodaeth yn cyrraedd pobl gall elwa o'r cynllun.






Mi fydd tocynnau mynediad i'r Maes yn mynd ar werth 19eg Mawrth a thocynnau cyw cynnar ar gael tan 1af Mai. Bydd modd i deuluoedd incwm is hawlio tocynnau am ddim i Faes Eisteddfod yr Urdd fel a ganlyn:

Trwy gynllun Aelodaeth £1 yr Urdd. Bydd yr Urdd yn e-bostio teuluoedd sydd yn derbyn Aelodaeth £1 yr Urdd hefo manylion hawlio tocynnau.

**Trwy wefan yr Urdd**. Bydd angen i berson neu deulu nodi eu bod yn gymwys i un o'r meini prawf wrth hawlio tocynnau. Bydd manylion llawn y meini prawf ar gael ar y wefan.

Cynhelir yr ŵyl rhwng 26 a 31 Mai 2025. Bydd modd prynu tocynnau neu hawlio tocyn mynediad am ddim i'r ŵyl drwy fynd i www.urdd.cymru/eisteddfod.

Meddai Siân Lewis, Prif Weithredwr Urdd Gobaith Cymru,

"Ar ran yr Urdd hoffwn ddiolch i Lywodraeth Cymru am eu cefnogaeth ariannol sy'n ein galluogi i gynnig Eisteddfod i Bawb ym Mharc Margam. Mae'r cynnydd mewn costau byw yn rhoi straen mawr ar deuluoedd, ac rydym eisiau sicrhau nad yw sefyllfa ariannol teulu yn golygu bod rhaid i blentyn golli allan ar brofiadau drwy'r Urdd."

Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros y Gymraeg, Mark Drakeford,

"Mae Eisteddfod yr Urdd yn un o uchafbwyntiau diwylliannol ein calendr Cymraeg ac yn ffordd wych i deuluoedd ddefnyddio, clywed a phrofi'r iaith. Mae'r Gymraeg yn perthyn i ni gyd ac mae'r cyllid hwn yn sicrhau na fydd rhwystrau ariannol yn atal teuluoedd rhag mwynhau Eisteddfod yr Urdd. Rydym yn falch o gefnogi'r Urdd a helpu mwy o bobl i gysylltu â'r Gymraeg drwy'r digwyddiad pwysig hwn."






## LLANDDEINIOLEN

**Eglwys Sant Deiniol**
Cynhaliwyd Gwasanaeth Cymun arbennig i ddathlu Gŵyl Ddewi ar Fawrth 2il dan arweiniad y Ficer, y Canon Naomi Starkey, a Naomi Woods. Roedd cynulliad da'n bresennol, a diolchir i Lydia Thomas am ymgymryd am y tro cyntaf â thraddodi'r Llith mor effeithiol ac am gyfraniad cerddorol yr unawdydd Karen Jones, a Doug Jones a Lowri Roberts am y ddeuawd o weddi dros ein teuluoedd a'n gwlad.

Roedd lluniaeth Gymreig wedi ei darparu ar y terfyn a chafwyd cyfle unwaith yn rhagor i gymdeithasu.

Dymunir yn garedig iawn dynnu sylw at yr ymdrech sydd ymlaen i geisio cadw'r Fynwent yn daclus gan fod nifer o flodau parhaol mawrion a adewir dros y gaeaf yn cael eu gwasgaru dros y Fynwent yn ystod stormydd, a photiau gwydr yn cael eu dinistrio ac yn dod i gyffyrddiad â'r peiriant torri gwair. Mae cyfleuster i ail gylchu blodau o'r fath a gwydr ger y fynedfa.

Bydd y Gwasanaeth nesaf ar Ebrill 6ed am 3.00 y.p. – Gwasanaeth Cymun arbennig fydd yn baratoad tuag at yr Wythnos Fawr, digwyddiadau tymhorol a dyfodiad y Pasg.







# Nodiadau Natur

Mae'r tywydd yr un mor anwadal ag arfer, yn braf a bron iawn yn gynnes, cyn troi'n oer a brath i'r gwynt ym mis Mawrth, wrth geisio ysgrifennu hwn. 'Mawrth a ladd Ebrill a fling' - meddan nhw ond mae'r drain duon yn eu blodau a'r drain gwynion yn deilio, llygaid ebrill a briallu ar ochrau'r ffyrdd a'r titw tomosiaid yn fy ngardd yn hel y robin a'r ji binc draw o'r bocs nythu, sy'n arwydd fel arfer eu bod nhw'n barod i gymharu a magu cywion.

Yn sicr bydd rhai creaduriaid yn dod allan i'r golwg unwaith yn rhagor. Gwybed o gwmpas, wrth gerdded yng Ngwarchodfa Natur Conwy yn ddiweddar. Bu'r amffibiaid yn brysur yn dodwy eu hwyau, (grifft) yn y ffosydd wrth ochr y ffyrdd a phyllau dwr. Mae'r gwanwyn ar ei ffordd, diolch byth.

Ceir dwy rywogaeth gyffredin o lyffant yng Nghymru. Amffibiaid ydynt. Dau amffibiad fydd yn cael eu trafod y mis hwn, sef y Llyffant a'r Llyffant dafadennog. Mae cylch bywyd diddorol i'r ddau. Yn gyntaf byddant yn dodwy wyau mewn dŵr, elwir yn grifft. Bydd y grifft yn raddol ddeor ac yn troi'n benbyliaid (sy'n anadlu drwy dagellau). Bydd y penbyliaid dros gyfnod o amser yn trawsnewid, yn tyfu coesau blaen ac ôl ac ysgyfaint. Pan fydd yn oedolyn bydd yn treulio gweddill ei oes yn byw ar y tir.

**Llyffant Dafadennog**
Enw gwyddonol - *bufo bufo*
Enw Saesneg - *Common Toad*
Enwau eraill Cymraeg - *Broga (Môn a De Cymru), Llyffant du*



Bydd y llyffant dafadennog i'w weld rhwng Chwefror a Hydref. Mae'n cuddio yn ystod y dydd ac yn fwy bywiog wrth iddi dywyllu.

Mae'n mesur rhwng 8 i 13 cm ac yn pwyso hyd at 80g. Gall fyw hyd at 4 mlynedd.

Mae ganddo groen brown-wyrdd efo defaid (*warts*) arno, sy'n esbonio'r 'dafadennog' yn ei enw. Mae'n cerdded yn hytrach na hopian/neidio. Creadur sy'n hoffi ei gwmni ei hun ydyw, ond yn y gwanwyn daw criw at ei gilydd. Defnyddiant byllau dyfnach a mwy na'r llyffant cyffredin, fel arfer. Bydd y gwryw yn cystadlu yn erbyn ei gilydd am y fanw. Ar ôl cymharu bydd y fanw'n dodwy ei wyau mewn llinynnau hir o gwmpas planhigion y dŵr, gyda dwy res o wyau i bob llinyn.

Maent yn treulio gweddill y flwyddyn yn bwydo mewn coedlannau, gerddi, gwrychoedd a phorfa. Maent yn gaeafgysgu, yn aml dan gerrig, storfeydd logs neu hyd yn oed mewn hen botiau blodau. Mae un i'w weld ac wrth ymyl y *'bunker'* glo acw. Mae gwenwyn (*toxins*) yn y penbyliaid sy'n eu gwneud yn annifyr i'w ysglyfaethwyr ac yn hyrwyddo eu goroesiad. Mae'r un gwenwyn i'w gael yn chwarennau croen yr oedolion.

Mae'n gigysydd sy'n bwyta gwlithod, malwod a chreaduriaid diasgwrn cefn (*invertebrates*) eraill. Mae cofnod i lyffantod dafadennog go fawr fwyta neidr ddefaid a neidr wair a hyd yn oed llygod y maes.

Caiff y creadur diniwed hwn ei gysylltu mewn chwedloniaeth gyda hud a lledrith a gwrachod! Yn y ddrama 'Macbeth' gan Shakespeare fe'u hystyrid yn gynhwysyn hanfodol mewn cawl gwrach.

**Llyffant**
Enw gwyddonol - *Rana temporaria*
Enw Saesneg - *Common frog*
Enwau eraill Cymraeg - *Broga, Broga Melyn, Broga Cyffredin (de Cymru), Llyffant melyn, Llyffant Cyffredin*



Mae'n mesur rhwng 8 i 13 cm ac yn pwyso oddeutu 22g. Gall fyw rhwng 5 i 10 mlynedd.

Mae ei gorff yn dew ac mae ganddo ffroenau crwn, traed gweog a choesau ôl hir, sydd wedi esblygu dros amser i nofio mewn dŵr a sboncian ar dir. Yn wahanol i'r llyffant dafadennog mae ei groen yn llaith a llyfn ac yn gallu amrywio mewn lliw. Gall fod yn frown neu'n wyrdd neu hyd yn oed yn felyn neu'n goch. Mae'n sboncian yn hytrach na cherdded ac mae'r coesau ôl yn hir. Ar ôl cymharu bydd y fanw'n dodwy ei wyau bob yn dipyn mewn llwythi. Gallu un llyffant benywaidd ddodwy hyd at 4,000 o wyau mewn un gwanwyn!

Bydd y llyffant i'w weld rhwng Chwefror a Hydref mewn coedlannau, gerddi, gwrychoedd a glaswelltir. Mae'n gaeaf gysgu gweddill y flwyddyn mewn mwd ar waelod pwll neu o dan dwmpathau o bren (sy'n dangos bod angen i arddwyr fod yn llai taclus a gadael coed a ballu o gwmpas yr ardd, er budd bywyd gwyllt, o bryd i'w gilydd).

Mae'n bwyta gwlithod, malwod amrywiaeth o greaduriaid diasgwrn cefn ac amffibiaid llai.

**Ffeithiau llyffantaidd diddorol**

Llyn Llyffant ydy llyn uchaf Cymru. Mae'n mesur 820 medr (2,690 troedfedd) uwch lefel y môr. Ocê efallai ei fod o'n debycach i bwll na llyn ond mae wedi ei leoli jest o dan Carnedd Llewelyn, copa uchaf y Carneddau.

Mae'n rhaid i chi gusanu sawl llyffant cyn gewch chi dywysog!

Paid a llyffantian! Dyma fyddai mam yn ei ddeud pan fyddwn i yn fy mhyjamas a heb roi gŵn nos. "Newidia reit handi neu mi fyddi wedi fferru…"

Coesau llyffant rywun? Petaswn i yn Ffrainc efallai byddai'r rhain ar y fwydlen. Maen nhw'n deud eu bod nhw'n blasu fel cyw iâr… sgersli bilif…




# Cyngor Cymuned Waunfawr

## COFNODION CYFARFOD MIS CHWEFROR 2025

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 15fed Ionawr, 2025 gan y Cyngh. EG ac eilwyd gan y Cyngh. DD.

**Materion yn codi o'r Cofnodion:**

**Materion Caeathro:**

Troedffordd o Gaeathro i Gaernarfon – Aros diweddariad. Cylchfan Gaeathro – Ar raglen waith Cyngor Gwynedd.

**Materion Waunfawr:**

Cae Aml-dywydd – Aros adroddiad ar y cae wrth ymyl gan Cyngor Gwynedd. Wedi holi Cyngor Gwynedd hefyd am gostau rhedeg y cae yn flynyddol.

Golau fflachio bob ochr i'r pentref – Aros diweddariad am y Ganolfan Iechyd

Baw Ci –Mae problem baw ci yn parhau i fod yn y pentref, **gofynwn yn garedig i bawb godi y baw p**an yn mynd a'r ci am dro. Mae dirwy i gael os yn cael eich dal yn ei adael. Bu disgyblion Bl 6 yr ysgol yn Siambr y Cyngor yn ddiweddar yn trafod ail gylchu, problem baw ci a.y.y.b, wedi mwynhau yn arw.

Tyllau yn y ffordd – Clerc wedi cysylltu a Cyngor Gwynedd ynglyn a' tyllau a'r dwr ar y ffordd y Groeslon, tyllau wedi eu cau bellach ond dal angen sortio y dwr.

Gwefan – mae gwefan y Cyngor yn fyw, a'r wybodaeth i gyd wedi ei ddiweddaru.

Arwydd Stad Bod Hyfryd – Aros Cyngor Gwynedd

Hysbysfwrdd – Clerc yn edrych am bris i gael un newydd tu allan i'r Ganolfan.

Diffib – polyn wedi ei osod yn Groeslon bellach yn barod i osod y diffib, Clerc wedi cysylltu a Chyngor Gwynedd i osod y Diffib rwan.

Gor yrru – Aros canlyniadau monitro cyflymder traffic gan Cyngor Gwynedd.

Coeden Nadolig – Canmoliaeth i'r goeden Nadolig eto eleni, ond yn anffodus mi gafodd y golau eu malu yn fwriadol, sydd yn golygu costau i'r Gymuned eto flwyddyn yma.

**Gerddi Bach**:

Aros pris gan MacVenure i osod swing ar gyfer babanod ar y safle. YGC wedi anfon llythyr i'r trigolion sydd wedi eu effeithio hefo'r llifogydd o'r cae, angen ymchwilio ymhellach

**Llochesi Bws:**

Dal i aros pris am baent i beintio y lloches bws ger yr Hen Bost,

**Llwybrau**:

Dim

**Y Fynwent:**

Clerc a'r Cadeirydd dal yn delio a'r mater sensitif. Angen trefnu i gael rhywun yno i ddal tyrchod daear

**Cynllun Gwyrfai Gwyrdd:**

Cais Grant i Ynni Cymru wedi bod yn aflwyddiannus. Gobeithio cychwyn Clwb Ynni yn mis Ebrill. Gobeithio cael cynllun Busnes yn fuan i gychwyn ar lefel bach a wedyn cynyddu. Mwy o wybodaeth ar gael gan y Cyng DD.

**Llifogydd** – Aros YGC

**Preasept 2025/26**

**Penderfynwyd** gadael y preasept yr un swm am y flwyddyn i ddod. Cofnod llawn ar gael ar y wefan.

**Dyddiad cyfarfod nesaf:**

26ain Chwefror, 2025 yng Nghanolfan Waunfawr.

# Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

## CRYNODEB O GOFNODION CYFARFOD 4YDD CHWEFROR 2025

**Cofnodion 7fed Ionawr 2025:**

Cafwyd y Cofnodion yn gywir, a nodwyd fod yr holl benderfyniadau wedi eu gwneud yn unfryd gan y Cyngor:

**Materion o'r Cofnodion:**

**Cais am Arwydd ger Rhyd y Fuwch.** Derbyniwyd ymateb oddi wrth Adran Drafnidiaeth Cyngor Gwynedd yn datgan bod data gan yr Heddlu a Llywodraeth Cymru'n dangos nad oes goryrru ac nad oes angen cael arwydd 'Arafu' yno. Hyn, er mai holl bwrpas gofyn am arwydd ydi ceisio sicrhau osgoi unrhyw ddamwain yno. Penderfynwyd gofyn i'r Cynghorydd Sir ddilyn i fyny ar y mater.

**Gohebiaeth a Materion Eraill:**

**Ysgol Ddeintyddiaeth ym Mangor:** Derbyniwyd llythyr cais am gefnogaeth gan Siân Gwenllian AS. Penderfynwyd cefnogi'r cais yn llwyr gan obeithio bydd hyn yn cael ei sefydlu yn y Brifysgol.

**Cynllunio:** Dyma'r ceisiadau a dderbyniwyd.

***C25/0019/18/LL – Cae'r Foel, Dinorwig.***

*Codi sied adeilad amaethyddol ar gyfer storio peiriannau ac offer amaethyddol a bwyd anifeiliaid.*

***C24/1129/18/AM – Tir Ger Bryntirion, Rhiwlas.***

*Cais amlinellol i ddymchwel adeilad allanol presennol a chodi un tŷ annedd.*

***C24/1115/18/LL – Vivian Diving Centre, Parc Gwledig Padarn.***

*Llwybr tanddwr, a llwyfan tanddwr ar wahân ar gyfer defnydd gan daith gerdded amgueddfa danddwr a hyfforddiant deifwyr.*

**C24/1135/18/LL – Parciau Rhos Bethel.**

*Mynedfa gerbydol newydd ynghyd â newid defnydd rhan o iard fferm ar gyfer parcio a storio loriau ac atgyweirio a chynnal a chadw loriau yn yr adeilad presennol.*

***Capel Glasgoed.***

Derbyniwyd cadarnhad nad oes angen cais cynllunio ar gyfer mynediad i fodur newydd gan fod yr agoriad yn agor ar lôn anghofrestredig. Mi oedd rhaid cysylltu a chydweithio gyda'r Adran Priffyrdd er mwyn iddynt gadarnhau fod yr agoriad yn ddiogel. Mae'r holl gynlluniau ar y safle wedi cael eu pasio ers y 1990au. Mae'r Capel bellach wedi ei werthu**.**

Diweddariad ar Gynllun Etifeddiaeth Mr Ken Harris:

Mae'r Is-bwyllgor wedi cyfarfod ddwywaith, ac wedi cyfarfod â phenaethiaid yr ysgolion erbyn hyn. Mae'n debygol fod y cynllun yn mynd i fod mewn dwy ran.

Cynllun Unigol pob ysgol, yna Cynllun Ardal fod y pedair ysgol yn cydweithio ar y cyd, sydd yn hollol wych. Wrth gwrs, bydd y Cynllun Ardal yn golygu tipyn o waith ymchwil. Felly, mae pob ysgol am gychwyn gyda Chynllun Unigol eleni.

Mae yna gyfarfod cyn hanner tymor lle mae'r ysgolion am gyflwyno eu Cynllun Unol, a'r gobaith ar ôl hyn ydi cael ychydig o'r plant i ddod i gyfarfod y Cyngor i roi rhyw 5 munud o gyflwyniad. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r plant holi beth yw rôl Cyngor Cymuned hefyd ac i ddod yn ymwybodol o waith y Cyngor.

Diolch i Gareth a'r Is-bwyllgor am eu hamser yn gyrru hwn ymlaen. Rydym i gyd yn edrych ymlaen am gyflwyniadau'r plant a'r Cynllun.

**O Gwmpas y Bwrdd:**

**Ffordd o Ddeiniolen ger Bryntirion/Rhiwen**

Mae dŵr sy'n hel ac yn rhedeg lawr y ffordd yma wedi gwaethygu'n ofnadwy, ac mae'n wir dweud ei fod fel llyn ambell ddiwrnod yn dilyn glaw trwm. Mae'n sobor o beryg, ac yn ddiweddar gwelwyd ei fod hefyd wedi rhewi ambell fore. Mae rhaid galw ar Adran Priffyrdd y Cyngor i edrych i mewn i'r mater a cheisio'i ddatrys.

**Capel Ebeneser:**

Mae pryder gan drigolion Deiniolen am gyflwr a dirywiad y Capel a'r tir, sydd reit ar y briffordd i mewn i'r pentref. Mae golwg ar yr adeilad ynghyd â gordyfiant ar y tir, ac mae cyflwr yr adeilad yn dirywio. Nid ydym yn gwybod pwy sy'n berchen ar yr adeilad na beth yw eu bwriad bellach. Y Clerc i gysylltu â'r Cyngor Sir i weld os oes modd cysylltu gyda'r perchnogion i godi pryderon trigolion y pentref.


Fferyllwyr Llŷn
Eich Fferyllydd Lleol | Your Local Pharmacist
Fferyllfa I Ellis Jones, Stryd Fawr, Llanberis
Oriau Agor:
Llun i Gwener: 9 - 6pm
Sadwrn: 9 - 4pm
*ar gau bob dydd rhwng 12.30 a 1pm
01286 800113
fferyllwyrllyn.co.uk



BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol - Ffoniwch **(01248) 361044**
**D. P. OWENS** RHIWLAS

# Cyngor Cymuned Llanberis

## COFNODION CYFARFOD 21AIN IONAWR, 2025

1. **Estynnwyd croeso** cynnes i bawb gan y Cadeirydd.
2. **Cadarnhawyd cofnodion** cyfarfod 17eg Rhagfyr yn gywir ac fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.
3. Derbyn adroddiad ar y cyd oddi wrth y Cynghorwyr Beca Brown a Berwyn Parry Jones (aelodau dros Lanrug a Chwm y Glo ar Gyngor Gwynedd. (Copïau i'w cael gan y Clerc)

4. **Materion parcio Llanrug.** Cais am waharddiadau parcio- cyffordd Ffordd Glanmoelyn a Ffordd Glanffynnon, Llanrug- neu leoliadau eraill.
Yn dilyn peth trafodaeth ar y mater adnabuwyd y canlynol:

a) Mae'r broblem parcio yn bodoli ar adegau penodol e.e. ar amser cludo plant i ac o'r ysgol gynradd, a phan mae gweithgareddau ymlaen yn y cwt band.
b) Sut byddai llinellau melyn yn effeithio ar yrwyr pan maent yn parcio ar hyn o bryd ar y 'ZigZags' melyn wrth ymyl yr ysgol.
c) Nodwyd fod ymgynghoriad traffig ar y gweill.
ch) Fod angen i yrwyr gymryd cyfrifoldeb dros eu hymddygiad personol ac ystyried sut mae eu gweithred yn effeithio ar bobl eraill.
d) Ymwybodol fod yr ysgol yn pryderu am y sefyllfa.
dd) Gwir bryder am y llif traffig.
e) Angen ystyried sut byddai'r llinellau melyn yn cael eu plismona.
f) Nodwyd fod rhai ceir yn parcio ar y palmentydd sydd yn golygu fod rhai cerddwyr yn gorfod camu allan i'r lon, yn enwedig rhieni gyda pram.
ff) Mynegwyd pryder mai mater o amser fydd hi cyn i rywun gael ei daro gan gar oherwydd parcio esgeulus rhai.

**Penderfynwyd**: Anfon llythyr at yr Adran Briffyrdd yn mynegi'r uchod a gyrru copi i'r ysgol fel bod yr ysgol yn ymwybodol bod y Cyngor Cymuned yn eu cefnogi.

5. **Gwrthwynebu codi cyflymder o 20mya i 30mya yn Ceunant**
**Penderfynwyd**:

a) Wedi trafodaeth gydag aelodau o'r ardal ar y Cyngor Cymuned a hwythau wedi ymgysylltu a thrigolion lleol, roedd y farn yn unfrydol i wrthwynebu'r cynnig.
b) Y clerc i gyfleu hyn at Lywodraeth Cymru.

6. **Ystyried cais am gymorth ariannol oddi wrth:**

a) Y Sefydliad Coffa
b) Eco'r Wyddfa

**Penderfynwyd:**

a) Cyfrannu £2900 at y Sefydliad Coffa.
b) Cyfrannu £950 tuag at yr Eco.

7. **Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Hamdden a Mwynderau**
Ymysg nodau ac amcanion y pwyllgor ar gyfer 2025/2026 roedd y canlynol:

a) Gwneud asesiadau risg ar y caeau chwarae, yr offer ac offer y gampfa.
b) Cynnal sesiynau hyfforddi ar gyfer y diffibriliwr.
c) Archwilio ein llwybrau cyhoeddus.
ch) Darparu cysgodfa bws- ger Y Glyntwrog.
d) Creu mapiau ar gyfer yr ardal yn cynnwys gwybodaeth am yr ardal, lleoliadau biniau, diffibriliwr ayyb.
dd) Offer ychwanegol i'r caeau chwarae- Pwll Moelyn.
e) Gwneud asesiad risg ar goed ar dir y cyngor.

8. **Cymeradwyo offer ar gyfer Cae Chwarae Pwll Moelyn yn unol â dadansoddiad o ymgynghoriad a gynhaliwyd drwy holiadur gyda phlant yr ysgol gynradd ac yn unol â'r arian yn y gyllideb**
Yn dilyn ymatebion i'r holiadur penderfynwyd pwrcasu dau fwrdd picnic ar gyfer parc chwarae Pwll Moelyn oddi fewn i'r gyllideb bresennol, ac yna i'r Pwyllgor Hamdden ystyried casgliadau'r holiadur gyda'r bwriad o ychwanegu offer yn ystod 2025/2026.

9. **Derbyn adroddiad Cadeirydd Pwyllgor y Fynwent**
Trafodwyd/Penderfynwyd:

a) Codi ffioedd 5% am 2025/6
b) Cyflwyno cais yn y Pwyllgor Cyllid i ariannu ail ran o'r gwaith yn y gofod newydd.(i'w cynnwys yn y cyllid am 25/26)
c) Nodwyd fod y blaenoriaethau blynyddol am 2024/2025 wedi eu cyflawni.
ch) Mae'r is-bwyllgor wedi adnabod ei flaenoriaethau ar gyfer 2025/2026 fel a ganlyn:

1. Parhau a'r drefn asesiadau risg ar y cofebion a'r fynwent (gwaith blynyddol)
2. Parhau i gystadlu yng nghystadleuaeth Mynwent y Flwyddyn (targed blynyddol)
3. Parhau i fonitro gofod yn y fynwent (gwaith blynyddol)
4. Cwblhau'r ail ran o waith yn y gofod newydd o'r fynwent
5. Adolygu rheolau'r fynwent (targed blynyddol)
6. Ymgyrchu i wella'r lon i'r fynwent (o'r lon fawr i'r eglwys) trwy lobio Cyngor Gwynedd ac eraill. Braf oedd derbyn rhodd ariannol gan berson o Sir Gaer sydd â chysylltiad gyda'r fynwent. Braf hefyd oedd derbyn canmoliaeth ym mis Ionawr am safon y fynwent gan ymgymerwr o du allan i'r ardal.

10. **Derbyn adroddiad gan gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau**
Adroddwyd fod y pwyllgor wedi cyfarfod ar y 7fed o Ionawr 2025. Ymysg yr hyn a drafodwyd:

- Adolygu ac addasu'r gyllideb fel yn briodol.
- Cymeradwyo cyllideb ar gyfer 2025/2026.
- Argymhelliad o braesept ar gyfer 2025/2026 o £100,000.
- Angen symud ymlaen gyda newyddlen ar gyfer 2025.
- Y Cynghorwyr Rhys Parry ac Ann Lawton i barhau i adolygu cynnwys ein gwefan.

11. **Cymeradwyo Praesept ar gyfer 2025/6**
Yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo praesept o £100,000 ar gyfer 2025/2026.

**Penderfynwyd**: Praesept o £100,000 ar gyfer 2025/2026.

12. **Ceisiadau Cynllunio**
**Rhif y Cais: C24/1060/23/DT.**
Adeiladu storfa. Canolfan Addysg Awyr Agored, Ffordd Bryngwyn, Llanrug.
**Penderfynwyd**: Cefnogi'r cais.








ECO'r Wyddfa
Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug
01286 673838 hefsj@aol.com



# LLANRUG

**Capel y Rhos - Oedfaon mis Ebrill**
6ed Ebrill – Ms. Dorothy Williams
13eg Ebrill - I'w drefnu
20fed Ebrill, Sul y Pasg - y Gweinidog, Y Barch Nerys Griffiths
27ain Ebrill - Parch Dafydd Job

**Gwellhad buan**
Rydym yn anfon ein cofion gorau at Carys Lloyd Evans, sydd wedi cael damwain ac wedi torri ei chlun. Falch o ddeall ei bod yn gwella erbyn hyn.

**Penblwydd arbennig**
Dymuniadau gorau i Tomos, Glasgoed, Llanrug ar ddathliad penblwydd arbennig yn 21 oed fis Chwefror. Gobeithio i ti fwynhau'r dathlu gyda theulu a ffrindiau, a phob lwc i'r dyfodol i ti Tomos.

**Profedigaeth**
Rydym yn anfon ein cydymdeimlad llwyraf i deulu Cartref yn dilyn eu profedigaeth fis Chwefror. Bu farw Selwyn Williams yn dawel yn Ysbyty Gwynedd yn 79 mlwydd oed. Gŵr cariadus y ddiweddar Caren, Graig Wen, Llanffestiniog a thad tyner Siôn Dafydd a Lowri. Tad yng nghyfraith a llys-dad Donna, Yankier, Lee, Rhonwen, Maia, Ben a Bleddyn, taid balch Nanon, Nia, Anna a Luca, a brawd annwyl Eirian ac Alun. Roedd Selwyn yn un o'r pedwar ddaru sefydlu papur bro'r Eco flynyddoedd yn ôl. Rydym yn meddwl amdanoch fel teulu yn y cyfnod anodd yma.

**Hafan Elan**
Mae cyfeillion Hafan Elan yn ddiolchgar iawn i Haf Thomas am ei rhodd o £200 a gyflwynodd iddynt. Roedd hyn yn dilyn gwerthiant ei Hunangofiant "O na fyddai'n Haf o hyd!" Fe ymddangosodd llun yn rhifyn mis Mawrth o Haf yn cyflwyno'r rhodd i Beverley y Warden, Cynthia Owen, Beryl Ellis ac Arnold Roberts. Diolch o galon i ti Haf.

Aeth criw ohonom i gyngerdd Tonic yn Galeri, Caernarfon i fwynhau orig yng nghwmni Dylan a Neil. Braf oedd cael clywed yr hen ffefrynnau ac wedyn mwynhau paned a sgwrs cyn troi am adref.

I ddathlu Gŵyl Dewi, bu Beverley a Kath yn paratoi cawl cennin a brechdanau ac wedyn cacen gri. Unwaith eto, diolch o galon i'r ddwy ohonynt.

Yn dilyn y Bingo arferol, cawsom wledd o grempogau efo'n paned gan Beverley. Mae'n debyg mai'r rhai efo siocled oedd y mwyaf poblogaidd!

**Merched y Wawr, Llanrug**
Nos Fawrth, 11eg o Fawrth.

Daeth nifer dda o aelodau i fwyty Y Felin, Pontrug, i ddathlu 50 mlynedd ers sefydlu'r gangen.

Derbyniwyd nifer o gardiau cyfarch yn dymuno'n dda i ni. Anfonwyd cofion arbennig at Myfanwy Parry. Nid yw wedi gallu dod i'r cyfarfodydd ers amser bellach ond gobeithiwn y bydd yn gwella'n fuan. Cydymdeimlwyd â Meirwen sydd wedi colli ei brawd yn ddiweddar.

Braf oedd cael cwmni rhai o swyddogion a staff y mudiad. Geunor Roberts, y Llywydd Cenedlaethol; Freda Jones Williams, Swyddog Datblygu'r ardal; Ann Elis y Llywydd Rhanbarth a Tegwen Morris, Cyfarwyddwraig Genedlaethol y mudiad. Diolch i Tegwen am dynnu lluniau ardderchog o bawb a phopeth. Cofnod gwych ar gyfer y dyfodol.

Edrych yn ôl wnaeth Phyllis Ellis, ein Llywydd anrhydeddus. Cofio'r cyfarfod cyntaf pan sefydlwyd y gangen yn 1975, yna cofio'r gweithgarwch a'r cyfeillgarwch dros y blynyddoedd. Sefydlwyd côr i gystadlu yn eisteddfod Caernarfon yn 1979. Côr a barhaodd i ymarfer a chynnig adloniant am flynyddoedd ar ôl hynny.

Braf oedd cael cyfle i gydnabod cyfraniad Meirwen ar hyd y blynyddoedd. Bu'n aelod gweithgar o'r gangen ac yn Llywydd Cenedlaethol rhwng 2018 a 2021. Bu aelod arall o'r gangen, Mary Roberts, yn Ysgrifennydd Cenedlaethol rhwng 2010 a 2014.

Roedd yna deisen 'Dathlu'r Aur'. Priodol oedd gofyn i Phyllis Ellis ac Ann Lloyd Griffith dorri'r deisen gan i'r ddwy fod yn aelodau ers 1975.

I ddiweddu'r noson cafwyd adloniant gan Sian Gibson a'i disgyblion talentog, Alys a Leusa. Dymunwyd pob llwyddiant iddynt yn y dyfodol.

Diolch i Meirwen am drefnu'r noson a diolch i berchnogion a staff Y Felin am y bwyd ardderchog. Cafwyd noson i'w chofio. Diolch i gronfa gymunedol y Loteri Genedlaethol am y cyfraniad tuag at y dathlu.

Cofiwch am y cyfarfod nesaf – "Achub mynydd ym mro'r Eco" ar yr 8fed o Ebrill.







## Diolch a dymuniadau gorau



Mae'n bleser i mi longyfarch Donna Taylor am 30 mlynedd o wasanaeth fel Gweithiwr Ieuenctid yng Nghlwb Ieuenctid Llanrug.

Ers dechrau ei gwaith gyda'r clwb, mae Donna wedi bod yn bresenoldeb enfawr i genedlaethau o bobl ifanc yn y pentref, gan eu cefnogi, eu hysbrydoli a rhoi cyfleoedd amhrisiadwy iddynt dyfu a datblygu.

Dros y degawdau, mae cannoedd o bobl ifanc lleol wedi elwa o'r gwaith gwych y mae Donna wedi'i wneud – nid yn unig drwy ddarparu lle diogel a chroesawgar iddynt gymdeithasu, ond hefyd drwy eu hannog i fentro ar brofiadau newydd a chyfleoedd datblygu personol. Nid yn unig y mae wedi bod yn weithiwr ieuenctid o'r safon uchaf ond mae hefyd wedi bod yn fentor, yn gyfaill ac yn ffigwr cefnogol i gynifer o bobl ifanc.

Un o gryfderau mwyaf Donna yw ei hymrwymiad i'w rôl. Mae hi bob amser yn mynd y tu hwnt i'r disgwyliadau, gan roi ei holl egni i sicrhau fod pobl ifanc Llanrug yn cael y gorau posib. Mae ei hangerdd am waith ieuenctid wedi arwain at ddatblygu prosiectau amrywiol sydd wedi dod â budd nid yn unig i'r bobl ifanc, ond i'r gymuned gyfan. Boed yn weithgareddau cymdeithasol, digwyddiadau codi arian neu brosiectau cymunedol, mae Donna bob amser yn flaenllaw wrth eu trefnu ac yn ysbrydoli eraill i gymryd rhan.

Mae ei hymdrechion dros y blynyddoedd wedi gadael effaith barhaol ar lawer o bobl, gyda llawer yn diolch iddi am y cyfleoedd a'r gefnogaeth a gawsant tra oeddent yn rhan o'r clwb. Mae ei chyfraniad tuag at lesiant ieuenctid Llanrug yn anferth, ac mae'r pentref yn ffodus iawn o gael unigolyn mor arbennig yn eu plith.

Wrth iddi gyrraedd y garreg filltir hon, mae Donna wedi penderfynu cymryd cam newydd a gadael ei rôl fel Gweithiwr Ieuenctid y clwb, ond mi fydd dal yn parhau fel Gweithiwr Arweiniol Cymorth Ieuenctid 16-25 oed, sydd yn gweithio ar draws Gwynedd. Er y bydd yn golled fawr i'r gymuned, mae ei hetifeddiaeth yn parhau, ac mae'n sicr y bydd ei gwaith yn parhau i ddylanwadu ar genedlaethau i ddod.

Felly, ar ran pawb sydd wedi cael y fraint o weithio gyda hi neu fod yn rhan o'i gwaith, diolch yn fawr iawn, Donna! Dyma at y 30 mlynedd nesaf o ysbrydoli a chefnogi ein pobl ifanc.

**Steffan Williams**, Rheolwr Gwasanaethau Ieuenctid

# CHWILAIR MIS EBRILL - CESTYLL YNG NGHYMRU

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| D | N | I | Ll | Y | W | D | O | L | B | A | D | A | R | N |
| I | R | W | A | C | D | B | R | O | N | Ll | Y | S | D | E |
| N | U | E | N | Ậ | G | I | Ff | E | I | O | S | N | E | T |
| A | Y | Ch | S | M | E | W | B | Th | E | I | C | I | R | C |
| S | P | U | T | R | N | M | D | U | Rh | U | Dd | L | A | N |
| B | Rh | D | E | O | G | A | I | N | Y | Rh | N | E | P | F |
| R | E | I | Ff | B | E | R | O | W | D | O | R | B | Dd | R |
| Ậ | L | C | A | R | R | E | G | C | E | N | N | E | N | I |
| N | R | O | N | E | H | S | A | E | A | T | O | P | Y | N |
| O | W | N | S | P | Y | D | F | R | B | D | S | G | W | A |
| N | G | W | A | D | O | L | F | O | R | W | Y | N | L | R |
| Th | R | Y | N | T | S | O | B | A | L | F | B | D | S | M |
| Ll | E | Ch | Y | B | N | I | D | S | W | R | E | O | Y | U |
| M | A | W | H | A | R | L | E | Ch | I | G | R | Y | R | F |
| D | C | I | L | G | E | R | R | A | N | Ng | E | T | D | Ch |

Mae dros 600 o gestyll yng Nghymru! Cafodd rhai eu hadeiladu i gadw'r Cymry mewn trefn. Cafodd rhai eu hadeiladu gan dywysogion Cymru i geisio amddiffyn eu tiroedd a'u pobl.

Mae Castell Dolbadarn ym mro'r Eco, yn Llanberis. Gweler tud. 9 am hanes y castell hardd yma.

Nid yw un castell yn chwilair y mis hwn fodd bynnag, yn gastell go iawn. Allwch chi enwi'r castell hwnnw?

Mi gewch yr ateb i'r cwestiwn a datrysiad i'r chwilair uchod yn rhifyn nesaf yr Eco.

Cofiwch bod rhai llythrennau dwbl yn Gymraeg, sydd yn llenwi un sgwâr yn y chwilair.

- **BIWMARES**
- **BRONLLYS**
- **CAERGWRLE**
- **CAERNARFON**
- **CARREG CENNEN**
- **CILGERRAN**
- **CONWY**
- **CRICIETH**
- **DINAS BRÂN**
- **DINBYCH**
- **DOLBADARN**
- **DOLFORWYN**
- **DRYSLWYN**
- **HARLECH**
- **LLANSTEFFAN**
- **PENRHYN**
- **RHUDDLAN**
- **Y BERE**



## ATEBION I CHWILAIR CREADURIAID Y NOS

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| M | A | N | T | D | O | L | G | U | I | T | A | R | C | E | N | U | B | C | Ff |
| B | N | Dd | R | Y | T | E | G | I | A | Ch | C | Y | Ff | R | E | D | I | N | Q |
| Z | R | I | O | W | R | N | A | B | E | A | B | E | R | T | I | Th | M | Y | U |
| Ch | E | I | E | R | A | E | Th | M | N | D | O | M | I | C | E | F | N | I | T |
| E | O | R | Ll | Y | S | T | L | U | M | E | B | G | N | Y | S | B | A | R | Y |
| G | P | S | W | I | G | O | N | E | A | R | D | L | O | Ff | I | A | Y | E | Ll |
| H | U | T | R | N | I | A | E | Th | B | Y | E | W | S | Y | E | R | G | O | U |
| J | R | O | M | R | Y | S | O | Dd | A | N | S | Y | T | L | N | F | I | N | A |
| Ll | Y | Ff | A | N | T | D | A | F | A | D | E | N | N | O | G | T | A | T | N |
| C | A | R | W | I | A | F | E | L | Y | R | D | U | N | G | W | W | Ch | L | W |
| F | I | E | R | Th | H | Y | Ll | F | R | Y | U | N | A | H | Y | A | E | A | E |
| R | B | Ll | O | R | N | W | P | O | Ch | C | T | B | Y | O | F | R | R | D | N |
| S | A | R | Y | C | Y | I | Y | N | D | I | A | I | W | N | Y | R | F | N | C |
| T | L | P | A | N | R | Rh | E | G | E | N | Y | R | Ŷ | D | N | G | N | P | O |
| E | Y | N | O | R | Ch | Y | Rh | I | B | M | O | Y | N | T | Ll | U | A | I | L |
| W | J | G | W | S | O | H | T | N | L | A | E | R | F | R | Y | W | U | L | O |
| Y | B | W | Ch | Y | D | A | N | A | S | N | Y | D | O | N | R | E | LL | R | M |
| J | O | D | S | Ll | T | O | M | T | I | A | M | P | C | Y | Ff | R | Y | E | B |
| A | N | E | A | F | I | Ff | E | P | A | W | E | Th | A | P | E | D | T | W | U |
| C | D | M | O | Ch | Y | N | D | A | E | A | R | I | N | M | R | C | O | N | G |

- **ADERYN DRYCIN MANAW**
- **BWCH Y DANAS**
- **CYFFYLOG**
- **DRAENOG**
- **GIACH CYFFREDIN**
- **GWYFYN**
- **LLWYNOG**
- **LLYFFANT DAFEDENNOG**
- **MOCHYN DAEAR**
- **PATHEW**
- **RHEGEN YR ŶD**
- **TROELLWR MAWR**
- **TYLLUAN FRECH**
- **TYLLUAN WEN**
- **YSTLUM**

Tybed faint o'r creaduriad yma ydach chi wedi eu gweld neu eu clywed yn nhywyllwch y nos? Gobeithio y gwnaethoch chi ddod o hyd i bob un ohonynt yn chwilair mis Mawrth yr Eco

Pobl graff sy'n darllen yr Eco. Wnaethoch chi sylwi bod y gair sydd wedi ei uwcholeuo yn felyn, yn anghywir? Roedd yn gywir yn yr eirfa Cymraeg/Saesneg ac yn y chwilair. Ymddiheuriadau lu, unwaith eto. Mi fydd yn rhaid i'r ŵyr a'i daid fod yn fwy gofalus wrth wirio chwilair y mis nesaf...





www.ecorwyddfa.co.uk

# LLANBERIS

**Cais am Newyddion**
Os oes unrhyw unigolyn neu gymdeithas yn dymuno cyflwyno eitem o newyddion, llun, neu erthygl i'r Eco, gallwch wneud hynny drwy gysylltu â mi drwy ffôn, e-bost neu alwad personol, gyda'r cyfeiriadau sydd o dan Newyddion Llanberis ar dudalen 2 yr Eco. Diolch yn fawr. Eifion Roberts

**Capel Coch**
**Diolch**
Hoffwn ddiolch i'm teulu a'm holl ffrindiau am eu caredigrwydd tuag ataf ar achlysur fy mhenblwydd arbennig yn ddiweddar. Diolch o galon, Gwyneth( Parry).

**Hen Stampiau**
Diolch i bawb sy'n cadw hen stampiau. Maent yn cael eu hanfon i gefnogi gwaith Cymdeithas Y Deillion. Gellir rhoi'r stampiau yn y cyntedd neu i un o'r Swyddogion.

**Bocs Bwyd**
Diolch i bawb sy'n cyfrannu nwyddau i'r Bocs Bwyd. Gellir rhoi'r nwyddau yn y Bocs Bwyd yn y cyntedd, unrhyw Sul.

**Oedfaon mis Mawrth**
30ain, 2.00pm - Miss Eleri Ll Jones

**Oedfaon mis Ebrill**
6ed, 2.00pm - Parch R O Jones
13eg, 2.00pm - Parch Ddr Elwyn Richards
18fed, Gwener y Groglith, 10.00am - Oedfa Gymun dan ofal y Parchedig John Pritchard
20fed, 10.00am - Oedfa
27ain, 10.00am - Parch Gwenda Richards

**Eglwys Sant Padarn**
Oedfaon mis Mawrth, Ebrill a'r Pasg
*Mawrth*
30ain, Sul y Mamau, 9.30am - Cymun Bendigaid
*Ebrill*
6ed, 9.30am - Cymun Bendigaid
13eg, Sul y Blodau, 9.30am - Boreol Weddi
17eg, Dydd Iau Cablyd, 7.00pm - Cymun Bendigaid
18fed, Gwener y Groglith, 12.00pm - Gwasanaeth Wrth y Groes
20fed, Dydd Sul y Pasg, 6.30am - Cymun y Wawr
27ain, 9.30am - Boreol Weddi

Croeso cynnes i bawb i'r gwasanaethau.

I'r rhai sy'n methu mynd i'r gwasanaeth yn Sant Padarn am 6:30 y bore, mae gwasanaethau Cymun y Pasg hefyd yn St Peris, Nant Peris am 9:30, Santes Helen, Penisarwaun am 11 y bore ac Eglwys Crist Deiniolen am 3 o'r gloch.

**Enillwyr Clwb 100 mis Chwefror**
1) Mary Carr 2) Owain Rees Jones
3) Suzanne Fisher

**Isacc Hughes**
Mae arddangosfa o waith Isaac Hughes, ffotograffydd cynnar Llanberis a oedd yn tynnu portreadau o bentrefwyr a chwarelwyr y cyfnod, i'w weld yn yr Eglwys rhwng 10:30am a 2:00pm o'r gloch o ddydd Llun i ddydd Gwener.

**Eglwys St Peris**
Bydd gwasanaeth bob bore Sul a bore Mawrth yn ystod mis Mawrth am 9:30yb.

**Clwb Pêl-droed Llanberis**
**Clwb 400 - 2024**
**Enillwyr**
*Medi 2024*
£50 - Llifon Owen
£30 - Heddwyn Jones
*Hydref 2024*
£50 - John Williams
£30 - Eifion Roberts
*Tachwedd 2024*
£50 - Gillian Cuddy
£30 - G Smith
*Nadolig 2024*
£100 - Helen Wyn Jones
£80 - Wendy Williams
£40 - Heddwyn Jones
£20 - Alan Parry
*Rhoddion*
£100 Er côf am Mena Jones, Llanberis ac Aberhonddu

**Clybiau Crefft**
Mae nifer o glybiau crefft a grwpiau gwirfoddoli yn y Pentref, yn eu mysg mae'r canlynol:

**Grŵp Crosio a Gwau Llanberis**
Rydym yn cwrdd yn y Ganolfan Gymunedol bob nos Lun o 6.00pm tan 7.30pm. Cost £1. Croeso cynnes i ddysgwyr a rhai profiadol!

**Clwb Gwnïo**
Yn y Ganolfan prynhawn dydd Iau, 2.00 - 4.00pm. Croeso cynnes i ddysgwyr a rhai profiadol!

**Pentref Taclus Llanberis**
Bellach mae'r grŵp yn hel sbwriel pob bore Sul yn fisol trwy'r gaeaf. Y grŵp yn cychwyn am 10.00am o Siop Menter Fachwen ar y Stryd Fawr, ac yn gorffen yno am 12.00pm. Croeso i bawb ymuno â ni ac mae pob offer ar gael i hel y sbwriel! Gweler y trefniadau ar dudalen y grŵp ar Facebook.

# Ysgol Dolbadarn


**Ymwelydd**




Ar y 4ydd o Fawrth cafodd Dosbarth Garn (Bl.3 a 4) y fraint o wrando ar hanes Mfikela Jean Samuel. Artist a siaradwr cyhoeddus/ysgogol yn wreiddiol o Cameroon. Disgrifiodd sut roedd ganddo ddim yn blentyn. Roedd yn rhaid iddo greu ei frwsh paent o gynffon bustach a llosgi pren fel ei fod yn gallu defnyddio golosg. Roedd ganddo freuddwyd anferth o dorri'r cylch tlodi. Mae bellach yn ddyn hynod lwyddiannus yn teithio'r byd gyda'i waith celf a'i siarad ysbrydoledig. Mae'n gredwr bod pob unigolyn a rhywbeth arbennig i roi i'r byd a bod yn rhaid breuddwydio'n fawr!

**Canlyniadau Eisteddfod**
Llongyfarchiadau i bob un sydd wedi cystadlu yn yr Eisteddfodau diweddar a phob lwc iddynt yn yr Eisteddfod nesaf! Dipyn o gamp – perfformio o flaen llond neuadd o gynulleidfa. Balch iawn ohonoch blant!









**'Wythnos Strolio a Rolio'**
Fel rhan o gynllun 'Teithio'n Llesol' byddwn yn dathlu'r 'Wythnos Strolio a Rolio' 24-28/3/25 drwy gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau ynghyd â bws cerdded i'r ysgol. Ein nod yw lleihau nifer o geir o amgylch yr ysgol.

Roedd Wythnos 'Strolio a Rolio' flwyddyn ddiwethaf 2024 yn llwyddiant:

- llwyddodd i 62.05% o blant deithio i'r ysgol mewn ffordd wyrdd;
- Ysgol Dolbadarn oedd y 11eg ysgol drwy Gymru am y nifer mwyaf o blant yn cymryd rhan;
- Ysgol Dolbadarn oedd y 3ydd ysgol drwy Wynedd am y nifer mwyaf o blant yn cymryd rhan.

Edrychwn ymlaen at weld beth fydd ein data eleni.



# Ysgol Gwaun Gynfi

**Gala nofio**
Llongyfarchiadu mawr i'r nofwyr am eu camp yn cynrychioli'r ysgol mewn cystadleuaeth nofio gyda Byw'n Iach.



**Dydd Gŵyl Dewi**
Dathlu'r diwrnod drwy wneud cacennau cri.





**Eisteddfod yr Urdd**
Llongyfarchiadau i bawb fuodd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Cylch.








## Y Gornel Ddarllen

**DAL DY DIR: ARGYFWNG TAI CEFN GWLAD YN YSBRYDOLI NOFEL NEWYDD**

Ar Fawrth 8fed, bydd Siân Williams, neu Siân Bod, yn cyhoeddi ei nofel gyntaf. Yn wreiddiol o Foduan yn Llŷn, mae Siân wedi gweithio fel gofalwraig, newyddiadurwraig, ymchwilydd academaidd, ymchwilydd teledu a golygydd materion gwledig.

Mae *Dal dy Dir* yn nofel wedi ei seilio ar broblemau a thensiynau cynyddol yng nghefn gwlad Cymru. Gohebydd ifanc a gweithgar ydy'r prif gymeriad, Cerys Ifans, sydd hefyd yn mwynhau bywyd i'r eithaf mewn partïon gwyllt neu yn ei charafán yn smocio joint! Yn ei gwaith, mae Cerys yn delio â phynciau llosg Cymru wledig – dwyn o ffermydd, prinder cartrefi, a mewnlifiad. Ond mae un stori sy'n agos iawn at ei chalon. Wedi marwolaeth Emlyn Parry Glan Gors, cefnoga Cerys ei deulu wrth iddyn nhw frwydro i gadw eu fferm deuluol. Ond yng nghanol y galar a'r gofid, mae hen gyfeillgarwch yn ail gynnau.




Mae'r nofel wedi'i gosod yng nghymdeithas wledig Gymreig Penrhynsiriol – ardal debyg iawn i Benrhyn Llŷn. Seiliwyd y nofel ar brofiadau personol yr awdur wedi i'w mam frwydro i gadw to uwch eu pennau ar ôl marwolaeth ei gŵr. Dywedodd Siân Williams, "Mi wnes innau fyw drwy'r profiad o fod dan fygythiad o gael ein troi allan o'r fferm deuluol. Dyna'r ysbrydoliaeth arweiniodd at sgwennu *Dal dy Dir*. Gobeithio bydd y nofel yn amlygu'r peryglon i'n ffordd o fyw yng nghefn gwlad Cymraeg Cymru heddiw."

Nofel fer yw hon â stori fachog er mwyn ei gwneud hi'n haws i godi llyfr a mwynhau. Mae'r penodau yn fyr a'r iaith yn apelgar er mwyn denu cynulleidfa o bob oed. Ceir digwyddiadau cyfoes, credadwy, a llwyddir i bortreadu darlun gonest o gymdeithas heddiw wrth i bobl leol frwydro am gartrefi, wrth i deuluoedd chwalu ac wrth i'r Gymraeg wynebu bygythiadau oherwydd mewnlifiad. Ond yng nghanol y cyfan, mae cyfeillgarwch y Cymry yn gryf ac mae'r merched, yn enwedig, yn cyd-dynnu er gwaethaf yr heriau a'r tor calon sy'n eu hwynebu, gan gefnogi ei gilydd er mwyn sicrhau dyfodol sefydlog i'w plant, i'w hardal a'r ffordd Gymreig o fyw. Disgrifiodd Bethan Jones Parry y nofel yn "bortread byrlymus a go agos ati o fywyd trigolion y Gymru Gymraeg wledig."

Dyma nofel gyntaf Siân Williams ond mae'n bosib y clywn ni ragor am hynt a helynt Cerys Ifans a thrigolion Penrhynsiriol yn y dyfodol. Yn ôl Siân, "Fel awdur newydd, mae fy niolch yn fawr i'r Lolfa. O'r munud wnes i gyflwyno sampl o fy ngwaith, mae'r golygyddion wedi fy meithrin gydol y broses. Mae'r addysg ges i ganddyn nhw yn amhrisiadwy."

Cyhoeddir *Dal dy Dir* gan Siân Williams ar Fawrth 8fed (£9.99, Y Lolfa).

**Yr awdur**
Yn wreiddiol o Foduan yn Llŷn, mae **Siân Williams** wedi gweithio fel gofalwraig, newyddiadurwraig, ymchwilydd academaidd, ymchwilydd teledu a golygydd materion gwledig. Mae hi'n cyfrannu'n gyson i *Golwg*, *North Wales Chronicle* a *Nation.Cymru*. Mae hi wedi ymgartrefu bellach yng Nghrawia, Llanrug, gyda'i gŵr a'i mab. Dyma ei nofel gyntaf.

# Garddio

## EBRILL

Mae sŵn y gwanwyn a'r lliwiau i'w clywed a'u gweld bellach. Sŵn adar bach ben bore a drwy'r dydd a melyn yr eithin, llygaid Ebrill, briallu a'r cennin pedr. Blodau gwynion y drain duon a phinc y coed ceirios er bod porffor y crocws bellach wedi darfod. Mae gwyrdd ir y blagur, sy'n prysur ddeilio, yn arwydd clir a hir ddisgwyliedig o'r gwanwyn.

Mentrwch allan i'r ardd. Rhaid cyfaddef i mi gychwyn arni ym mis Mawrth. Roeddwn i'n methu maddau plannu ambell i beth, tocio ambell i beth, a rŵan mae hi'n fis Ebrill does dim esgus!

Yn ogystal â phethau sy'n tyfu ym mhridd yr ardd mae angen rhoi dipyn o sylw i goed a llwyni mewn potiau, cynwysyddion, basgedi crog a bocsys ffenast hefyd. Tynnwch unrhyw ddail sydd wedi marw neu wedi cael niwed. Crafwch tua 2.5cm o gompost o dop y potyn ac ychwanegwch gompost newydd yn ei le. Cofiwch roi bwyd ychwanegol iddynt hefyd, peledi sy'n rhyddhau maethynnau dros amser, a'i ddyfrio mewn i'r compost. Ond os yw'r gwreiddiau'n dod allan o'r gwaelod, symudwch y planhigyn i botyn mwy, gan ddefnyddio compost John Innes Rhif 3. Fel arall mae modd tocio'r gwreiddiau, yn enwedig os nad ydach chi am i'ch planhigyn dyfu'n fwy nag ydy o.

Mae'r egin blanhigion y tomatos a'r ciwcymbr allan o'r '*propogator*' ac yn addurno'r silffoedd ffenest. Mi ydw i'n croesi mysedd bydd hi'n cynhesu digon iddyn nhw gael eu trawsblannu i botiau mwy a mynd i'r tŷ gwydr yn reit handi, gan fy mod i'n rhedeg allan o silffoedd ffenast. Doeddwn i ddim am blannu *chillies* eleni, gan nad ydw i wedi cael hwyl ar eu tyfu ers dwy flynedd bellach. Ond… Mae yna ond bob amser yn does? Roedd hanner paced o hadau ar ôl ers llynedd, felly wrth gwrs doeddwn i ddim am eu gwastraffu, felly roedd yn rhaid i mi eu plannu. Hyd yma maent wedi tyfu'n ddigon del. Amser a ddengys os lwyddai i gael chillies call eleni, yn sicr mi fyddan nhw angen gwell haf na'r un gawson ni'r llynedd.

Cofiwch osod llafnau'r peiriant torri gwair yn uchel os yw'n ddigon sych i dorri'r lawnt, os yw'n wlyb anghofiwch y peth tan fydd hi'n sychach, neu mi wnewch mwy o ddrwg nag o les.

**TASGAU**

1. Hen gyngor yw, "Dechreuwch wrth eich traed…" Cyngor da. Tynnwch bob chwynnyn welwch chi cyn iddyn nhw fynd yn fawr a hadu dros bobman. Os oes planhigion lluosflwydd (*perennial*) yn llawn chwyn codwch nhw efo fforch, tynnwch y chwyn allan ac ail-blannwch y planhigyn. Os oes chwyn yn dod drwy slabiau defnyddiwch chwynwr pwrpasol neu gyllell i'w tynnu. Ond meddyliwch beth sydd wedi hadu… Mae gen i 4 planhigyn *verbena boneriansis* yn y tŷ gwydr oedd wedi hadu rhwng slabiau. Mi godais i nhw a'u sticio mewn potiau a thrwy lwc maent wedi goroesi'r gaeaf. Peth da wir gan fod y rhai sydd ar ôl yn yr ardd yn edrach yn ddigon llegach.
2. Dyma'r amser i hau blodau blwyddol sy'n ffordd dda o greu lliw mewn ffordd sy'n llawer rhatach na phrynu planhigion. Gallwch hau ffarwel haf (*asters*), dyddgu *(rudbeckia), zinnia a Mair melyn (marigolds)* mewn lle cynnes, megis silff ffenast neu'r tŷ gwydr fel y byddant yn tyfu'n dda ac yn barod i'w plannu allan ym mis Mai.
3. Yn y tŷ, yn union fel tu allan, gallwch symud eich planhigion i botiau mwy os yw'r gwreiddiau'n dod drwy'r gwaelod. Os am gynyddu eich stoc gallwch rannu rhai ohonynt i 2 neu 3 planhigyn llai, a hyd yn oed eu rhannu efo ffrindiau a theulu. Mae'n amser hefyd i ddechrau bwydo a dyfrio (gyda dŵr claear) bob rhyw 10 i 14 diwrnod, gan gofio tsiecio os ydy'r compost yn sych rhag i chi or-ddyfrio. Does dim angen bwydo am sbel os ydach chi eisoes wedi ail-botio.
4. Gallwch ddechrau plannu bylbiau *'gladioli'* yn awr, un ai i harddu'r borderi, neu mewn rhesi fel blodau i'w torri i'r tŷ. Maent yn hapus ym mhob math o bridd ac yn ffynnu mewn llecyn heulog, ond cofiwch eu dyfrio os yw'n sych i sicrhau tyfiant da. Plannwch nhw 10cm o dan y pridd a thua 10 i 15cm oddi wrth ei gilydd. Gallwch ymestyn yr amser blodeuo drwy blannu gwahanol fathau neu blannu'r un math i gael sblash o liw am gyfnod byrrach.



Gladioli

5. Plannwch fylbiau (*sets*) nionod mewn lle heulog efo draeniad da. Dewiswch fylbiau caled a'u plannu fel bod y blaen ar lefel y pridd. Cadwch lygaid arnynt, mae ambell i aderyn yn hoffi eu tynnu allan, felly byddwch yn barod i ail-blannu fel bo'r angen. Wrth gwrs os oes ganddo'ch hwligan o gath gringoch, mi fydd rhaid creu rhwystr rhag i hwnnw eu chwalu… Pwy fagai gath dudwch…
6. Dyma adeg dda i ail-hadu mannau moel yn y lawnt.
7. Daliwch ati i glymu blaen dyfiant newydd ar rosod, hen ŵr a *passion flowers* gan ddefnyddio llinyn meddal neu glymwyr rwber.
8. Mae bysedd y cŵn, mantell y forwyn (*alchemilla mollis)*, nad af i'n angof (*myostotis sylvatica)* y pabi California (*eschscholzia*) a'r 'ceiniogau' *lunaria* yn dda am daflu eu hadau i bobman, sy'n egino'n blanhigion bach yn rhad ac am ddim i chi. Mae'r *lunaria* yma wedi hadu eu hunain dros yr ardd.



lunaria



bonet nain

Tra bo'r bonet nain yma wedi plannu ei hun wrth waelod y 'roceri'. Mae'n ddigon del, felly'n cael aros lle mae o.

Wrth i'r pridd ddechrau cynhesu dyma'r amser i drawsblannu'r planhigion bach yma. Codwch y gwreiddiau'n ofalus gydag ychydig o'r pridd o'u cwmpas a'u hail-blannu mewn llecyn heulog neu rhannol gysgodol. Cofiwch ddyfrio er mwyn rhoi siawns i'r gwreiddiau ddatblygu ac wedyn gallwch eu symud i ble bynnag a fynnwch. Wrth ail blannu un cynhwysydd mi ddois ar draws llwyth o hadau wedi egino. Dydw i ddim yn siŵr beth yn union ydyn nhw, *pansies* yw'r mwyaf tebygol, felly maent mewn bocs bach a phan dyfith y dail mi fyddai'n gwybod beth ydyn nhw… Gobeithio.



egin

9. Dyma'r mis i blannu eich prif gnwd o datws a defnyddio digon o dail i sicrhau digon o gnwd.

***Rhosyn Mynydd***

# Chwilota

Erthyglau hanes lleol, Bro Eco'r Wyddfa.
chwilota.wordpress.com

# Pandai – y rhai cynharaf a'r rhai diwethaf



Llyn William Owen ym Mhontrug.

Sawl pandy wyddoch chi sydd ar lannau afon Rhythallt a Saint o Ben Llyn i Aber Saint? Dim un bellach, a phrin yw'r enghreifftiau o barhad yr enw hyd yn oed. Mae'r enw'n bod ym Mhontrhythallt, ar ochr Llanddeiniolen o'r afon. Mae hefyd yn bod yn Llanbeblig, ar y ffordd o Gaeathro i Gaernarfon, sef Tyddyn y Pandy, heb fod nepell o Fynwent Llanbeblig. Ond a oedd mwy yn y gorffennol? Yr ateb yn sicr yw 'oedd'. Ac yr oeddent wastad yn gysylltiedig â melinau gwlân. Yr enw Saesneg arnynt oedd *'fulling mill'*, a *'fuller'* oedd yr alwedigaeth. 'Pannwr' oedd y term Cymraeg am yr alwedigaeth. Byddai'r brethyn, wedi ei lanhau, yn cael ei bannu i'w wneud yn fwy trwchus trwy ddod â'r ystof a'r anwe ynghyd. Dyma ran o'r broses i 'orffen' gweolion. Byddid yn defnyddio pŵer dŵr fel rheol i yrru'r morthwylion pannu, fel bod pandai yn fynych ar lan afon neu o fewn cyrraedd at ddŵr. Dyna fynd ati felly i geisio darganfod y rhai cynharaf.

**1536**: Cyfeiriad at Felin Dafydd ap Siencyn ym mhlwyf Llanrug. Yn anffodus, does dim gwybodaeth a oedd hon yn felin wlân, na chwaith ymhle ar lannau'r Saint yr oedd wedi ei lleoli.

**1584**: Mewn dogfen sydd ar gadw yn yr Amgueddfa Brydeinig, mae cyfeiriad at ddaliadau ym mhlwyfi Llanfair-is-gaer a Llanrug. Bryd hynny, roedd plwyf Llanfair-is-gaer yn ymestyn drosodd tua Chaeathro; ac felly gallwn fod yn weddol sicr mai yn yr ardal rhwng Pont Rug a Phont Peblig yr oedd Tyddyn nant y felin, Criw Saint a Pandy Saint. Y 'criw',wrth gwrs, oedd yr argae ar letraws yr afon yn cronni dŵr i'w anfon i'r felin mewn ffos. O ddyfalu'r lleoliad, gellir awgrymu fod y felin, y criw a'r pandy rywle rhwng Glangwna a Thyddyn y Pandy; gerllaw hen bwll nofio plant Caernarfon gynt, sef Llyn Criw.

**1656**: Mewn cytundeb eiddo, ceir cyfeiriad at Melin Bodrual a Pandy Bodrual.

**1699**: Cyfeiriad at Owen ap Richard, Llanrug – *'fuller'*. Yn anffodus, ni chofnodir ble roedd ei bandy.

**1772**: Cytundeb rhwng Joseph Williams, Glanrafon a William Howell, Llangwna, Llanbeblig (camgymeriad yw hwn yn amlwg: dylai fod yn Glangwna, Llanrug). Yr oedd person o'r enw William Howell yn byw yng Nglangwna bryd hynny. Mae'n cael ei ddisgrifio yn y cytundeb fel *'fuller,'* ac am dâl o £15 y flwyddyn mae'n cael hawl i godi tŷ a melin. Gan mai *'fuller'* oedd ei alwedigaeth, byddai angen pandy i drin y wlannen.

**1795**: Mewn dogfen arall yn delio â thir Glangwna, mae cae yno yn cael ei alw yn 'Cae Dentur'. Nid yw lleoliad y cae yn cael ei nodi. Cyfeiriad sydd yma at y ffrâm bren a oedd yn cael ei gosod o'r tu allan i'r pandy. Byddai'r wlannen yn cael ei hongian arno i'w sychu a'i ymestyn ar ôl iddo gael ei bannu. Byddai bachau yn dal y wlannen ar y ffram. Yr enw Saesneg ar y ffrâm oedd 'tenter', a roes yr ymadrodd *'on tenterhooks'.* Dyma'r unig dro i mi ddod ar draws yr enw dentur yn yr ardal, ac yr oedd yr enw wedi diflannu erbyn Map Degwm Llanrug lai na hanner can mlynedd yn ddiweddarach.

**1800 ymlaen:** Fel roedd y diwydiant gwlân yn cynyddu, y duedd oedd i waith y felin – y cribo, nyddu a gwehyddu – gael ei gyfuno â gwaith y pandy yn yr un adeilad, a daeth y ffatri wlân i fodolaeth.

**1837:** Mae John Rowlands, Plastirion, Llanrug yn rhoi lês i William Owen, Tryfan, Llandwrog i adeiladu *'factory or carding mill'* ar ran o dir Tyddyn y Corn, Pontrug am £5 y flwyddyn. Mae William Owen ar Gyfrifiad 1861 yn ei ddisgrifio'i hun fel *'weaver and woollen manufacturer'* ac yn cyflogi dau was, ac un o'r rheini hefyd yn *'weaver,'* sef gwehydd. Nid yw'n ymddangos fod William Owen wedi symud i Bontrug yn dilyn y cytundeb, ond ei fod yn hytrach yn cyflogi eraill i wneud y gwaith. Ffatri Pontrug yw'r enw a roir iddi yn 1841, gyda Hugh Williams yn gwehyddu a John Jones yn bannwr. Mae'n amlwg fod y gweithwyr yn byw ger y ffatri yn Tai Melinyddion. Diddorol yw nodi fod y llyn sydd wedi ei gronni â chriw islaw'r bont ym Mhontrug yn cael ei alw yn Llyn William Owen. Ond nid o'r llyn hwn y deuai'r dŵr i'w felin – bwydo'r Felin Wen a wnai hwnnw. Dŵr o afon Ifor oedd yn troi olwyn ffatri Pontrug.

**1841:** Mae Cae Pandy yn ymddangos ar dir Glangwna, sef y tir ar draws y briffordd o stad Erw Wen, Caeathro. Mae'n ymddangos felly fod y pandy ei hun ar lan afon Gwna yn y pant islaw. Yn byw yn y Tyrpeg gyferbyn roedd Richard Thomas – gwehydd wrth ei alwedigaeth.



Olion ffos melin Pontrhythallt.

**1841:** Dyma'r cyfeiriad cyntaf i mi ei ddarganfod am y Pandy ym Mhontrhythallt. Gŵr o'r enw John Roberts oedd y penteulu, yn rhoi ei alwedigaeth fel *'fuller'.* Roedd yn dal wrth yr alwedigaeth honno yn 1851 ac yntau'n 75 mlwydd oed. Ond ble roedd y felin? Yr oedd melin yn union islaw'r bont ym Mhontrhythallt (ar ochr Llanddeiniolen). Cafodd ei chwalu pan adeiladwyd y rheilffordd o Gaernarfon i Lanberis, a methais â chael dim mwy o wybodaeth amdani. Ond mae olion y ffos i'w gweld hyd heddiw.

Os oes gwybodaeth gan unrhyw un o'r darllenwyr am 'bandy' fel enw yn rhannau eraill o Landdeiniolen neu ym mhlwyf Llanberis, rhowch wybod. A rhag ofn fod trigolion y Waunfawr yn eiddigeddus, mae hanes eich ffatri wlân wedi bod yn yr *Eco* eisoes! Darllenwch dudalen 28 o rifyn Mai 2017 am hanes Ffatri Treflan.

Os oes angen cysylltu, anfonwch at Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug; ffoniwch 01286 673515 neu e-bostiwch dafydd.wthomas@btinternet.

# Dyddiadur y gath ddŵad/Bobliadur - Rhan 35

Dyma hanes cath fawr goch, a ddaeth, dros dair blynedd yn ôl, i fyw ar lethrau Eryri. Doedd o ddim wedi dewis dod yno i fyw ond, doedd ei fywyd hyd hynny, ddim wir wedi bod yn beth fyddai unrhyw gath gall wedi ei ddewis.

*Yn ôl pob sôn mae cath fel ymbarél! Naci! Allwch chi ddim ei dal uwch eich pen i gadw'n sych os yw'n bwrw… Ond maent, os ydynt yn disgyn o uchder yn dal eu hunain i mewn i siâp ymbarél, sy'n golygu eu bod felly yn glanio ar eu traed. Cat righting reflex ydy'r enw crand Saesneg ar hynny. Mae ganddynt hefyd gyrff bychain sy'n gallu troi'n gyflym yn yr awyr, tra bo eu strwythur esgyrn ysgafn a'u blew tew yn helpu lleihau effaith disgyn. Mae'r gallu i wneud hyn yn dechrau pan yw'r gath rhwng 3 i 4 wythnos oed ac mae'r gallu i lanion yn ddiogel ar ei phedair pawen wedi ei ddysgu'n iawn erbyn mae'n 6 i 7 wythnos oed.*

*Wrth i mi ysgrifennu hwn does dim angen ymbarel. Mae hi'n dal yn oer ond does fawr o wynt wedi bod yn ddiweddar chwaith, felly mae Bob yn treulio mwy o amser yn chwarae tu allan nag ydy o tu mewn. Mae o wrth ei fodd yn rhedeg fel mellten ar draws yr ardd a sgrialu heibio efe neu fi drwy'r drysau. Mae o hefyd ychydig yn fwy mentrus yn ddiweddar ac yn dringo'r waliau i fynd i'r cae a gwasgu ei ffordd drwy'r giatiau i weld be welith o y tu hwn i'w libart arferol.*

Dyma Bob felly yn parhau efo'i stori ar ôl mentro allan i'r ardd i weld beth welith o:

"Dwi wedi bod allan yn syth ar ôl brecwast, jest gwneud yn siŵr fod popeth yn iawn, ond roedd y ddaear yn galed a gwyn o dan fy mhawennau. "Mae'r barrug yn beryg yn 'bora," fyddai mam yn ei ddeud, pan oeddwn i'n gath fach… Felly ges i napan bach ar y gadair o dan y bwrdd i gael cynhesu, tra roedden nhw'n cael eu brecwast nhw, cyn meddwl am fynd allan eto.

Pan dwi'n mentro allan dwi'n gweld bod y ddeu-droed bach allan ers sbel, dwi'm yn hollol siŵr be mae hi'n ei neud ac yn sicr does gen i ddim syniad pam mae hi'n





gneud be mae hi'n ei neud. Mae hi'n falch o fy ngweld i dwi'n meddwl, felly dwi'n mynd draw i rwbio yn erbyn ei choesau hi. Mae hi'n torri darnau o blanhigion ac yn eu rhoi yn y bin brown ar olwynion. Mae'r peth torri'n edrach yn beryglus felly dwi'n neidio ar ben wal i'w gwylio a chadw'n saff.

Ar ôl dipyn dwi wedi oeri'n ista, mae'r gwynt yn fain ac mi ydw i angen gneud be sy'n rhaid i gath ei wneud… Dwi newydd setlo fy hun i lawr yn y pridd meddal, pan dwi'n clywad bloedd!

"Bob! Bob! Ty'd o fanna! Dwi newydd fod yn palu a phlannu yna! Asiffeta gath!"

Mae hi'n rhedeg tuag ataf i ac mi ydw i'n penderfynu byddai'n well i mi symud reit handi. Mae'r peth torri miniog yn ei llaw, er dwi'n gwybod na fyddai'n ei ddefnyddio arna i go iawn!

Dwi'n sgrialu ar draws y lawnt ac anelu am y drws cefn, ond mae o wedi cau. Felly Plan B amdani… Dwi'n rhedeg at y giât a gwasgu drwy'r bariau, wnâi fentro nôl pan fydd hi yn tyrchu yn y pridd eto.

Pan mae hi'n ôl yn siarad efo'r planhigion dwi'n neidio ar ben wal, er mwyn i mi gael gweld i mewn i'r cae. Dwi'n ddiogel yn fan'ma ac yn gallu mwynhau gwylio'r pethau bach pluog, er nad ydyn nhw'n mentro'n rhy agos ataf fi, am ryw reswm.

Mae fy mol i'n deud bod hi'n amser te. Tybed ydw i wedi cael maddeuant am balu ei gardd hi?

Wyddoch chi be? Ydw! Mae hi wedi agor y drws cefn ac yn gweiddi fy enw, "Bob! Ti'n barod am de?"


Fel dwi wedi deud o'r blaen mae'r deu-droediaid yn gofyn cwestiynau gwirion weithiau. Wrth gwrs dwi'n barod am de!

Mmmm! Blasus iawn, a gan ei bod hi wedi cau'r drws dwi'n mynd drwadd at y bocs tân a chynhesu ar ôl fy holl ymarfer corff. Gobeithio gwneith y deu-droediaid setlo rŵan ac mi gai'i freuddwydio am gael mwy o anturiaethau yn yr ardd a fy nghynefin.

Dim byd gwell na thân braf a mat cyfforddus i gath flinedig. Mae yfory heb ei dwts! Hwyl fawr!"







Tyddyn Teg
Bwyd - Tir - Pobl

LLYSIAU LLEOL FFRES

Ymunwch â'n cynllun llysiau!

Dewch i'n siop!

- Rydym bob amser gyda llysiau blasus a ffres o'n caeau a'n twneli polythen.
- Rydym wedi ein lleoli ym Methel ar y ffordd tuag at Llanrug.

Cysylltwch â ni: **07599 813777**
✉ info@tyddynteg.com
Neu ewch i'n gwefan: **www.tyddynteg.com**

# Ar ben arall i'r lein



Dyma dymor arall wedi agor ei ddrws unwaith eto, a thawel iawn oedd pethau. Cefais olwg ar ochr Pont Crawia: dim pryfyn i'w weld, a'r tywydd braidd yn oer, ac felly yn y car yr arhosodd yr enwair. A wyddoch chi be? Mae'n 12ed o Fawrth erbyn hyn, a dydw i heb fod allan eto. Dangos fy oed, meddai'r criw yng Nghwt Crawia! Cawn weld am hynny yn de, o gofio'r hen ddywediad, 'Gydag oed, daw doethineb'. Ond mewn difri, ychydig iawn sydd wedi bod allan; a does dim adroddiad wedi dod i law am unrhyw beth yn dod i'r rhwyd. Yr unig newydd yw bod y bont dros Afon Newydd (Caledffrwd) ger y Seston Fawr wedi diflanu, wedi ei sgubo i ffwrdd gan lifogydd mawr y gaeaf. Ble mae hi? Wel, coeliwch neu beidio, mae'n gorffwyso tua 400 medr lawr yr afon, tros y ffordd i dai Stablau. Mae rhai'n dweud y bydd rhaid benthyca helicopter o'r Fali i'w chario yn ôl!

Diolch i Dafydd Whiteside (yn Eco mis Mawrth) am ragor o hanes Llyn Bogelyn a'r prysurdeb oedd o gwmpas Cwm, a sut mae'r lle wedi newid. Roedd rhan o'r prysurdeb o amgylch Gwesty'r Newborough ger Pont Pen Llyn. Sgwn i faint sydd erbyn heddiw'n cofio'r lle? Yr unig ran o'r adeilad sy'n dal i sefyll yw'r hen shed gadw a'r toiled allanol. Fel llawer i doilet o'r fath, roedd



Gwesty'r Newborough Pen Llyn




Tyllau arllwysion, yn dangos lefel gostyngiad yr afon i lawr at Llyn Bogelyn a'r Seston Fawr

y carthion yn cael eu gollwng ar eu hunion i'r afon. Erbyn heddiw, yn dilyn gollwng lefel yr afon o Bont Penllyn i lawr i Cwm y Glo yn y 1930au, mae'n bosib gweld o ble roedd y carthion yn cael eu gollwng, a thrwy hynny sylweddoli faint mae lefel y dŵr wedi gollwng. Diolch i'r drefn fod y tŷ bach yn segur y dyddiau yma yn de.

Problem fawr y bydd rhaid ei wynebu yw'r chwyn sy'n prysur ymledu ar hyd Llyn Padarn. Cyn bo hir, bydd yn amhosib pysgota'r glannau. Mae'r llyn, ynghyd â rhan o Afon Rhythallt ym Mhen Llyn, wedi eu dynodi fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Gyda'r dynodiad, mae yna gyfrifoldedau gwarchodol. Wel, felly mae pethau i fod! Oes, mae hyn a'r llall i fod i gael ei wneud, ond does dim yn cael ei wneud! Mae hyn yn mynd ymlaen ers Ionawr 2023, pan dynwyd sylw'r awdurdodau at y broblem.

Mae'n rhaid dweud fod Cyngor Gwynedd wedi gosod arwyddion wrth y lanfa yn y Glyn yn amlinellu'r broblem. Wel, dyna'r cwbl y mae'r arwyddion yn ei wneud, gan nad oes neb o gwbl yn cymryd unrhyw sylw o'r broblem ymlediad. Un enghraifft oedd bore dydd Llun, 10fed Mawrth. Gwelsom oddeutu 40 o ganŵs a dingis rwber yn cael eu lansio o'r Glyn. O gael gair â'r person oedd yn gyfrifol am y fenter, fe gadarnhawyd mai cwrs yn cael ei redeg gan y ganolfan addysg awyr agored yn Llanrug oedd hwn. Angrhedadwy oedd deall nad oedd yr hyfforddwyr yn gwybod am y problemau, na chwaith wedi gweld yr arwyddion, neu yn fwy tebyg heb gymryd sylw ohonynt. Mwy o bryder oedd deall nad oedd ganddynt unrhyw ffordd i lanhau eu heiddo cyn gadael y llyn. Y tebygolrwydd yw bod y criw yma, yn ystod eu harosiad yn y fro, yn ymweld â dyfroedd eraill Eryri gan ymledu'r chwyn ar eu taith. Mae busnesau fel hyn yn gorfod talu i Gyngor Gwynedd am gael defnyddio'r llyn. Mi wna i adael i chi ddod i'r casgliad ar be sy'n mynd ymlaen. Ond rhaid gofyn, oes yna rhywun heblaw pysgotwyr yn malio am lendid ein dyfroedd? Mae'n ddigon amlwg erbyn heddiw nad oes neb o gwbl. Sobor o beth, yn de.

Mae'n amlwg fod rhaid i minnau beidio â disgyn i'r pydew o ddilyn






Y canŵs yng nghanol y chwyn

cwynion a oedd o gwmpas y lle a hefyd ar y cyfryngau cymdeithasol 'ma. Y mis diwethaf, fe roddais dipyn o sylw i gwynion oedd yn dod ataf am yr arwyddion a osodwyd i atal cerddwyr rhag cael mynediad ar hyd glannau ochr Rheilffordd Llyn Padarn. Rhoddais eglurhad ynglŷn â'r gwaith gan y Grid Cenedlaethol i osod gwifrau'n gysylltiedig â Gorsaf Dinorwig. Hollol anghywir oedd y wybodaeth yna, gan mai torri coed a gwaith cynnal gan y Rheilffordd oedd yn mynd ymlaen. Ni fydd gwaith y Grid yn dechrau tan 2026 cyn belled ag y gwn i. Rwyf wedi ceisio cadarnhau'r dyddiadau cywir, ond hyd yn hyn ofer fu fy ymholiadau i'r Rheilffordd a'r Grid. Cewch wybod cyn gynted ag y daw'r wybodaeth i mi.

Ac o'r diwedd, dyma droi at y sgota, ac at y criw a fu'n cyfarfod dros y misoedd diwethaf yn Y Ganolfan yn Llanberis i dderbyn hyfforddiant ar glymu plu. Llwyddiannus dros ben fu'r fenter, a mawr yw'r disgwyl am gael rhoi prawf ar eu hymdrechion pluog! Mi ddaw'r cyfle hwnnw ar 1af Ebrill, sef diwrnod agoriadol Llyn y Dywarchen. A pham y Dywarchen? Wel, wrth gwrs, y peth pwysicaf mewn dilyniant i ymdrech yw llwyddiant, ac mae yma gyfle arbennig am lwyddiant drwy bolisi stocio'r Clwb. Mae eu brwdfrydedd gyda'r cawio'n sicr o arwain at rhywbeth blasus i'w padelli. Bydd yn wyliadwrus, Goronwy, achos mae'n debyg y bydd bwydwyr padelli eraill o gwmpas y fro eleni!



Brithyll yr enfys o'r badell

Unwaith eto, rhaid diolch i'r criw bach sy'n rhedeg y Ddeorfa, yn gofalu am y dyrnodiau stocio a'r cychod, a'r rhai fu'n rhedeg y dosbarthiadau clymu plu.

Ond ydi hi'n rhyfedd pan fo cymaint o bwyslais ar sut mae pysgota a cherdded y glannau'n fuddiol i'r iechyd. Ond rhaid sylweddoli bod mwy i bysgota na dim ond pysgota! Mae'r cyfeillgarwch a'r cyfathrebu a'r tynnu coes yn mynd â'r holl beth ymhellach. Does unlle gwell i brofi hyn nag yn y cwt yn Crawia. Mae croeso i bawb sydd eisiau rhoi tro arni ac yn chwilio am lond trol o hwyl.

Bardd bysgotwr arall oedd Cynan. Dyma ran o be ddywedodd (Teifi) am ei gyfeillgarwch â Wilbert Lloyd Roberts:

O'r bore tra thirion hyd hinon brynhawn
Crwydrasom ein deuwedd un duedd un dawn,
Pysgota tan fangoed a glasgoed y glyn,
A dal i bysgota a'r nos ar y bryn.
A pha sawl cyfrinach cyfeillach a fu
Ar bulpud o greigan ar dorlan Pwll Du?

Dyma ni am y tro; ac mae digon yn barod i'w adrodd yn y rhifyn nesaf, heb gyfeirio at y billiau treth dŵr enfawr sydd newydd ddod trwy'r post! Sgwn i a wnaiff hyn arwain at lai o garthffos yn llifo i'n dyfroedd? Dim newid fydd, mae'n siwr.

**Huw Price Hughes**



# Merched Cymru yn dal eu tir yn erbyn goreuon Ewrop

Fis diwethaf fe gychwynodd ymgyrch Cynghrair y Cenhedloedd i Ferched Cymru. Maent yn rhan o grŵp A4 gyda'r Eidal, Sweden & Denmark. Cyfle euraidd i chwarae rhai o dimau gorau Ewrop cyn gwneud eu ffordd i'r Swistir fis Gorffennaf ar gyfer Pencampwriaeth yr Ewros.

Yr Eidal oedd eu gêm gyntaf yn yr ymgyrch a hynny oddi cartref yn Monza. Daeth ergyd yn fuan iawn wrth i Gymru ildio gôl ar ôl dim ond 5 munud. Serch hynny ni roddodd Cymru eu pennau yn eu plu ac fe ddalion nhw ati i herio. Fe gafodd Angharad James gyfle da a darrodd y post ac mi oedd Cymru yn parhau i fod yn gystadleuol. Roedd Yr Eidal yn hyderus a ddim yn brin o gyfleoedd ond fe chwaraeodd Olivia Clark yn wych yn y gôl gan sicrhau na fyddai'r golled yn fwy.

Creodd y tîm cartref y cyfleoedd gwell ond roedd amddiffyn Cymru yn gadarn. Er mai colli gwnaeth Cymru, roedd yn her dda ac yn sicr yn hwb i hyder y garfan i allu perfformio yn gryf yn erbyn tîm fel yr Eidal (tîm sydd wedi cystadlu yn yr Ewros 13 gwaith gyda llaw)! Doedd Cymru ddim yn edrych allan o le ac wedi gallu llwyddo i gadw'r sgôr yn 1-0.

Roedd yn gêm arbennig iawn i Hayley Ladd wrth iddi ennill cap rhif 100 gan iddi fod yn y 10fed chwaraewr i gyrraedd y garreg filltir yno.

Roedd sylw Cymru yna yn troi at y Cae Ras yn Wrecsam wrth iddyn nhw groesawu Sweden i Ogledd Cymru. Tîm a ddaeth yn 3ydd yng Nghwpan y Byd yn 2023 ac sydd wedi eu rhestru fel y 5ed tîm gorau yn y byd (ar y pryd – maent wedi disgyn i 6ed erbyn hyn).

Braf oedd hi i groesawu Merched Cymru a chael rhoi croeso arbennig iddyn nhw wrth iddyn nhw chwarae eu gêm gyntaf adref ers hawlio eu lle yn Ewro 2025. Unwaith eto, fe roddodd Cymru berfformiad hyderus a chadarn ac fe lwyddon nhw i ddal eu tir yn wych yn erbyn un o dimau gorau'r byd!

Fe sicrhaodd Sweden y gôl gyntaf ar ôl 14 munud ac ar y pwynt hwnnw roedd nerfusrwydd wrth feddwl sawl gôl y byddai Cymru'n ildio o ystyried cryfder y tîm oddi cartref. Fe ddaliodd Cymru ati ac er bod Sweden yn curo ar y drws, unwaith eto, fe roddodd Olivia Clark berfformiad cadarn a llwyddo i gadw cyfleoedd Sweden allan o'r gôl.

Doedd Cymru ddim yn brin ar ymdrechion gyda Ceri Holland yn creu problemau i amddiffyn Sweden. Roedd y post a'r trawst yn help i Gymru wrth i Olme a Blackstenius fethu taro'r targed i Sweden. Gydag oddeutu chwarter awr i fynd fe ennillodd Cymru gic o'r smotyn ar ôl llawiad yn y cwrt cosbi. Fe sgoriodd Kayleigh Green ac roedd Cymru yn gyfartal! Byddai'r chwarter awr olaf yn hir ond fe lwyddodd Cymru i ddal ar a chipio pwynt wrth iddi orffen yn un yr un.

Ar y cyfan mi fydd Rhian Wilkinson a'i thîm yn hynod hapus gyda'r perfformiadau. Mae'n rhoi cipolwg o bosib ar sut y bydd Cymru yn ymdopi yn yr Ewros yn erbyn y goreuon. Mae cyfnod cyffrous o'n blaenau yn bendant!

**Mared Rhys Jones**

# Price yn rheoli yn y Sgwâr Bocsio

Ym mis Mai'r llynedd cipiodd y Gymraes Lauren Price Wregys Pwysau Welter WBA a IBO y Byd am y tro cyntaf erioed wrth drechu Jessica McCaskill. Cyn i'r ferch o Ystrad Mynach amddiffyn ei theitl yn erbyn Bexcy Mateus yn Lerpwl mis Rhagfyr.

Dychwelodd Lauren Price i'r sgwar bocsio Mis Mawrth i amddiffyn ei dau wregys y Byd a thrio ychwanegu dwy arall i'w chasgliad. Yn ei herbyn roedd Natasha Jonas o Lerpwl oedd a dau wregys Pencampwr y Byd ei hun sef y WBC a IBF.

Roedd Jonas wedi amddiffyn ei gwregys ar yr un cerdyn a Lauren Price ym mis Rhagfyr.

Gyda'r ddwy yn gyn Olympiaid a dau wregys yr un, roedd hon am fod yn dipyn o ornest.

Hon oedd Brif Ornest y noson ar y cerdyn yn y Royal Albert Hall yn Llundain. Gyda diwrnod rhyngwladol y merched yr un penwythnos roedd pob un o'r bocswyr yn ferch. Roedd hi'n noson hanesyddol i focsio merched.

Felly i'r ornest daeth Lauren Price i mewn i'r sgwâr gydag 'Yma o Hyd' yn seinio yn y cefndir a chefnogaeth dda o Gymru yno. Ond yn amlwg roedd y gefnogaeth fwyaf ar gyfer Jonas. Roedd 4 gwregys Pwysau Welter y Byd ar y lein. 10 Rownd o 2 funud. Price yn mynd i'r ornest 8 allan o 8 ers troi yn Broffesiynol a'r Profiadol Jonas wedi ennill 16 o'i 19 gornestau proffesiynol.

Cychwynnodd yr ornest a Price yn cael y gorau o'r rownd agoriadol gan lanio dwrn i wyneb Jonas. Erbyn yr ail rownd roedd Price yn rheoli gan daro Jonas ar ei hwyneb.

Dilynwyd gyda rowndiau agos ac wrth i Jonas drio dod i mewn i'r ornest a thrio glanio dyrniad neu ddau ar Price, ond y Gymraes yn ei chadw i ffwrdd wrth i Jonas wella yn araf. Hanner ffordd trwy'r Ornest a Price yn cael y gorau a'r gwahaniaeth ffitrwydd i'w weld yn amlwg.

Price yn cadw ati ac er i Jonas lanio ambell i ddwrn. Price yn taro yn ôl ac yn glanio'r dyrniadau yn gywir ac yn gwneud hi'n anodd i'r ferch o Lerpwl.

Gyda Price yn rheoli a'r rowndiau'n mynd heibio, roedd rhaid i Jonas ymosod ond Price yn ymateb pob amser. Yn Rownd olaf yr ornest glaniodd Price ddwrn i wyneb Jonas. Ond Jonas yn ymateb a dwrn de ar y Gymraes. Ond wedi 10 rownd gampus a brwydr cyffrous yr ornest yn dod i ben ac at y beirniaid ar gyfer y sgoriau.

Daeth y Sgoriau i mewn a'r 3 beirniad yn gytun ar yr ennillydd. Yn cipio'r ornest y Gymraes Lauren Price yn ennill gan ymestyn ei record i 9 allan o 9 ac yn Bencampwr y Byd Pwysau Welter y WBA, IBO, WBC a IBF. Price bellach yn berchen ar 4 gwregys y Byd.

Roedd hi'n llawn haeddu'r teitl cychwyn cryf ac yn dominyddu o'r Rownd gyntaf. Er i Natasha Jonas ddod nôl i mewn i'r frwydyr, doedd dim i stopio Price ac y 10 mlynedd o wahaniaeth yn ei oed i'w gweld yn ffitrwydd y ddwy.

Newyddion arall o'r sgwar bocsio'r un diwrnod a'r ornest honno oedd clywed y newyddion am Jade Jones. Y Seren Taekwondo o'r Fflint a ennillodd Fedal Aur yn gemau Olympaidd Llundain 2012 a Rio 2016 yn ymddeol o Taekwondo gan troi ei sylw ac i Focsio yn Broffesiynol.

Cymraes arall i serenu yn y sgwar Bocsio pwy a ŵyr?

Felly Lauren Price yn Bencampwraig ar 4 o 5 gwregys Welter y Byd. Diwedd Mawrth bydd Mikaela Mayer yn wynebu Sandy Ryan am y gwregys arall i Bwysau Welter. Bydd Price yn edrych i wynebu yr ennillydd or ornest honno nesaf i drio cipio'r 5 gwregys ar gyfer y pwysau.

Gobeithio bydd cyfle i gael yr ornest honno yng Nghaerdydd a chefnogaeth gartref iddi. Hefyd o bosib gweld Joe Cordina yn dychwelyd ar yr un cerdyn ? Gobeithio wir, cawn weld yn y misoedd nesaf!

**Elgan Rhys Jones**



Lauren Price

ISSN 2516-7235